

Gwerthusiad o Effaith Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWWYS)

Mai 2017

Mark Brierley

Consulting

20 Boundary Lane

Saltney

Sir y Fflint, y DU

CH4 8LN

01244-671218

Mbrierley1@sky.com

www.markbrierleyconsulting.co.uk

Tabl Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL	i
1 Cyflwyniad	1
2 DISGRIFIAD CRYNO O CWVYS	1
2.1 Datganiad Sefyllfa CWVYS (Mawrth 2017)	1
2.2 Strwythur ac Adnoddau	2
3 METHODOLEG	4
3.1 Amcanion ar gyfer CWVYS	4
3.2 Dulliau	4
4 Amcan 1: Bod yn gynrychiadol a chynnal perthnasoedd effeithiol â sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuentid ledled Cymru.	6
4.1 Cynrychioldeb.....	6
4.1.1 Maint ac Amrywiaeth Sefydliadau sy'n Aelodau	6
4.1.2 Gwasgariad Daearyddol.....	7
4.1.3 Prosesau i Nodi a Chysylltu ag Aelodau Newydd	7
4.1.4 Twf.....	9
4.1.5 Crynodeb: A yw CWVYS yn Gynrychiadol?.....	10
4.2 Perthnasoedd Effeithiol â Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith Ieuentid.....	11
4.2.1 Buddion a Werthfawrogi Fwyaf gan Aelodau CWVYS	11
4.2.2 Perthnasoedd Effeithiol â Sefydliadau Gwirfoddol Nad ydynt yn Aelodau o CWVYS sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith Ieuentid	12
4.2.3 Crynodeb: A oes gan CWVYS Berthnasoedd Effeithiol â Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith Ieuentid?.....	13
5 AMCAN 2: Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gwaith ieuentid i ymgysylltu yn fwy strategol, a chaniatáu iddynt gael gwrandawriad i'w llais mewn penderfyniadau ynghylch polisi	14
5.1 Llais Cenedlaethol.....	14
5.2 Prosesau Ymgynghori CWVYS.....	14
5.3 A Allai/Ddylai Llywodraeth Cymru Gynnal ei Hymgyngoriadau Ei Hun heb CWVYS?.....	15
5.4 Crynodeb: A yw CWVYS yn Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Gwaith Ieuentid i Ymgysylltu yn Fwy Strategol a Chaniatáu Iddynt Gael Gwrandawriad i'w Llais? ...	16
6 AMCAN 3: Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuentid i gydweithio'n fwy effeithiol ag Awdurdodau Lleol.	17
6.1 Cydlynu Strategol Cenedlaethol.....	17
6.2 Effaith yn achos Awdurdodau Lleol Unigol	17
6.3 Cynllunio Strategol a Mecanweithiau Cydlynu Lleol	19
6.4 Crynodeb: A yw CWVYS wedi sicrhau Effaith o ran Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith Ieuentid i Gydweithio'n Fwy Effeithiol ag Awdurdodau Lleol? ...	20
7 AMCAN 4: Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol i ddangos effaith eu hymyriadau gwaith ieuentid	21
7.1 Diffinio "Effaith"	21
7.2 Rôl Grŵp Datblygu'r Gweithlu	21
7.3 Marc Ansawdd.....	22
7.4 Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuentid.....	23

7.5	Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol Unigol i Ddangos Effaith	23
7.6	Crynodeb: Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol i Ddangos Effaith eu Hymyriadau Gwaith leuenctid	25
8	AMCAN 5: Ymchwilio ynghylch dod yn sefydliad cynaliadwy a datblygu'n sefydliad o'r fath.	26
8.1	Ymchwilio a Datblygu.....	26
8.2	Crynodeb: Ymchwilio ynghylch Dod yn Sefydliad Cynaliadwy a Datblygu yn Sefydliad o'r Fath	27
9	BETH FYDDAI POBL YN GWELD EI GOLLI PE NAI BAI CWVYS YN BODOLI?	27
9.1	Ym Mha Ffyrdd Fyddai Pobl yn Gweld Colli CWVYS?	27
9.2	Crynodeb: Yr Effaith Pe Na Bai CWVYS yn Bodoli	29
10	CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU A'R ARGYMHELLION	30
10.1	Amcan 1: Bod yn Gynrychiadol a Chynnal Perthnasoedd Effeithiol â Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith leuenctid Ledled Cymru.	30
10.2	Amcan 2: Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Gwaith leuenctid i ymgysylltu yn Fwy Strategol, a Chaniatáu Iddynt Gael Gwrandawriad i'w Llais mewn Penderfyniadau Ynghylch Polisi.....	30
10.3	Amcan 3: Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith leuenctid i Gydweithio'n Fwy Effeithiol ag Awdurdodau Lleol.....	31
10.4	Amcan 4: Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol i Ddangos Effaith eu Hymyriadau Gwaith leuenctid	32
10.5	Amcan 5: Ymchwilio ynghylch Dod yn Sefydliad Cynaliadwy a Datblygu yn Sefydliad o'r Fath	32
10.6	Crynodeb o Effaith Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer CWVYS	33
	Atodiad 1: RHESTR O GYFWELEION	34

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn darparu Gwerthusiad o Effaith Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS). Gwnaed y Gwerthusiad gan yr ymchwilydd a'r ymgynghorydd annibynnol *Mark Brierley Consulting* ym Mawrth ac Ebrill 2017.

Yn y cyfnod a gwmpasir gan y Gwerthusiad, roedd Llywodraeth Cymru a CWVYS wedi cytuno ar bum Amcan ar gyfer y Grant. Defnyddiwyd yr Amcanion hyn fel ffocws pennaf y Gwerthusiad o'r Grant.

- Amcan 1: Bod yn gynrychiadol a chynnal perthnasoedd effeithiol â sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid ledled Cymru.
- Amcan 2: Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gwaith ieuenctid i ymgysylltu yn fwy strategol, a chaniatáu iddynt gael gwrandawriad i'w llais mewn penderfyniadau ynghylch polisi.
- Amcan 3: Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid i gydweithio'n fwy effeithiol ag Awdurdodau Lleol.
- Amcan 4: Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol i ddangos effaith eu hymyriadau gwaith ieuenctid.

Ar gyfer 2016-2017, pennwyd Amcan ychwanegol:

- Amcan 5: Ymchwilio ynghylch dod yn sefydliad cynaliadwy a datblygu'n sefydliad o'r fath.

Y prif ddull o wneud y Gwerthusiad oedd cyfweiliadau unigol. Oherwydd yr amserlen fer, roedd y mwyafrif ohonynt yn gyfweiliadau dros y ffôn. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o gyfweleion.

Amcan 1: Bod yn gynrychiadol a chynnal perthnasoedd effeithiol â sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid ledled Cymru.

Ar y cyfan, mae CWVYS wedi effeithio'n bositif ar yr amcan hwn, er bod lle i wneud rhagor.

Dywedodd aelodau fod CWVYS yn gynrychiadol, o ran yr amrywiaeth o fathau o sefydliadau a gynrychiolir a'u maint, a'u gwasgariad daearyddol, a bod CWVYS wedi gwella yn yr ystyr hwn. Mae CWVYS wedi ehangu o 46 aelod yn 2009-10 i 97 yn 2016-2017. Fodd bynnag, roedd pedwar o'r wyth cyfweilai o Awdurdodau Lleol yn fwy amheus ynghylch y nifer o Aelodau sydd gan CWVYS yn eu hardal.

O safbwynt ei Aelodau, mae gan CWVYS berthnasoedd effeithiol â hwy. Bydd aelodau yn dewis ehangder y berthynas a ddymunir ganddynt.

Ym marn y Gwerthuswr, mae CWVYS yn ymddangos yn eithaf cynrychiadol, ond mae lle i wneud y canlynol:

- datblygu perthnasoedd agosach â rhwydweithiau lleol (megis Awdurdodau Lleol a Chynghorau Gwirfoddol Cymunedol) i wella'i wybodaeth am ddarpar aelodau;
- rhannu setiau data ynghylch aelodau presennol a darpar aelodau â Llywodraeth Cymru, er mwyn datblygu dealltwriaeth a rennir;

- gwella adroddiadau ynghylch niferoedd yr Aelodau i Lywodraeth Cymru trwy eu segmentu yn well yn sefydliadau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol (fel y dengys Tabl 1 yn adran 4.1.4), gan alluogi i Aelodau newydd ac Ymadawyr gael eu holrhain.

Amcan 2: Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gwaith ieuencid i ymgysylltu yn fwy strategol, a chaniatáu iddynt gael gwrandawriad i'w llais mewn penderfyniadau ynghylch polisi

Rwy'n credu fod CWVYS yn cyflawni'r Amcan hwn i'w Aelodau.

- Mae'r Aelodau yn gwerthfawrogi'r llais Cenedlaethol cyfunol. Pe na bai CWVYS yn bodoli, dyna'r elfen fyddai Aelodau a hyd yn oed sawl cyfwelai arall yn gweld ei golli fwyaf. Ystyrid fod gan CWVYS ffocws unigryw ac arbenigedd unigryw ynghylch gwaith ieuencid.
- Credai aelodau fod y broses ymgynghori a ddefnyddir gan CWVYS yn caniatáu iddynt gyfrannu. Mae'n golygu mwy na chyfrannu at waith ymgynghori: mae'n ymwneud â hyder, undod a'r "diogelwch mewn niferoedd" a ddarperir gan y llais cyfunol.
- Cred sefydliadau llai na fyddent yn cael gwrandawriad o bosibl heb fod yn rhan o'r llais cyfunol. Yn ogystal â hynny, pe na bai CWVYS yn bodoli, byddent yn ofni cael eu hynysu: ni fyddent yn gallu bod yn ymwybodol o bolisiau a strategaethau newydd neu gyfleoedd i gael arian; byddai cyfleoedd i rannu arferion da yn cael eu lleihau yn sgil colli'r cylchlythyrau, e-byst, cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd rhwydweithio; ni fyddent yn gallu ffonio neb i gael cyngor a chymorth; credai sefydliadau oedd wedi datblygu o un ardal Awdurdod Lleol i weithio ar draws ardaloedd sawl Awdurdod Lleol fod CWVYS wedi gwneud cyfraniad allweddol at eu cynorthwyo i nodi'r cyfleoedd hyn.
- Efallai bydd sefydliadau unigol yn dal yn dymuno cyflwyno eu hymatebion eu hunain i ymgynghoriadau pan fyddant yn credu fod ganddynt arbenigedd penodol ond serch hynny yn dymuno i CWVYS ddarparu llais ar gyfer y Sector ynghyd â'u hymatebion eu hunain.
- Pan mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd ag ymgynghoriadau, mae'n ymddangos fod CWVYS wedi gwneud cyfraniad pwysig at gyfeirio ei Aelodau at y prosesau hyn i'w hannog i gyfranogi.
- Serch hynny, mae angen i CWVYS wella ei ddull o ddisgrifio'r prosesau a ddefnyddir ganddo i gyflawni'r llais cyfunol Cenedlaethol hwnnw.

Amcan 3: Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuencid i gydweithio'n fwy effeithiol ag Awdurdodau Lleol.

Mae effaith CWVYS o ran cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuencid i gydweithio'n fwy effeithiol ag Awdurdodau Lleol yn anghyson.

Mae rhywfaint o gysylltu/cydllynu ar y lefel cenedlaethol sydd ddim mor drylwyr ag y gallai fod (neu ddim cystal ag y mae CWVYS yn dymuno iddo fod), ond efallai caiff hyn ei ddatrys gan fwrdd cenedlaethol newydd y gwasanaethau cymorth ieuencid.

Mae tystiolaeth fod CWVYS yn gwneud cyfraniad effeithiol fel brocer rhwng rhai Aelodau a rhai Awdurdodau Lleol, ond ar y cyfan, nid yw hyn yn gryf oherwydd: mae rhai Awdurdodau Lleol yn llai derbyngar; ceir materion systemig y mae rhai Awdurdodau Lleol eu hunain yn eu hwynebu sy'n ei gwneud hi'n anoddach iddynt ryngweithio; ac nid yw rhai Aelodau na llawer o Awdurdodau Lleol yn

ystyried ei fod yn ofynnol i CWVYS gyfranogi yn hyn (e.e. ble mae cysylltiadau lleol rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol eisoes yn gryf).

Efallai fod lle i CWVYS ddatblygu perthnasoedd gwaith cryfach â chynrychiolwyr sectorau gwirfoddol lleol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn benodol). Gallai'r cysylltiad hwn â rhwydweithiau lleol gynorthwyo i wella'r dull o nodi darpar Aelodau newydd a chynorthwyo i gryfhau presenoldeb CWVYS mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol ble mae'n ymylol yn y meddylfryd presennol, ac ychwanegu at wybodaeth leol CWVYS hefyd. Ni fynegwyd hyn trwy gyfrwng y broses cyfweiliadau, felly ni ellir gwybod i ba raddau mae CWVYS wedi ceisio gwneud hyn yn barod. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol gallu cyfweld rhagor o gynrychiolwyr Cynghorau Gwirfoddol Sirol i gael amrywiaeth ehangach o safbwyntiau ynghylch hyn, ond mae'r cyfweiliadau a gynhaliwyd yn awgrymu y byddent yn croesawu hyn.

Hefyd, gallai'r Amcan fod yn well pe cai ei ailysgrifennu i symud y pwyslais oddi wrth "Awdurdodau Lleol" yn unig a chwmpasu mecanweithiau cydlynu lleol eraill, yn enwedig Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu.

Amcan 4: Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol i ddangos effaith eu hymyriadau gwaith ieuencid

Mae CWVYS wedi hyrwyddo'r dull "cyfraniadau da yn arwain at ganlyniadau da" trwy ei Grŵp Datblygu'r Gweithlu a thrwy'r cyfleoedd mae'n eu darparu i rannu arferion da, yn enwedig o ran astudiaethau achos yng nghylchlythyrau CWVYS a thrwy gyfrwng ei gyfarfodydd rhwydweithio amrywiol.

Dylai CWVYS ddarparu adroddiad blynyddol ynghylch y nifer o unigolion o sefydliadau sy'n Aelodau sydd wedi elwa o'r hyfforddiant am ddim a ddarperir trwy law Dysgu Oedolion Cymru. Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno gwybod rhagor am broffil unigolion sy'n elwa o hyfforddiant gan Dysgu Oedolion Cymru, yn y sectorau statudol a gwirfoddol.

Nid yw dangos effaith gwaith ieuencid yn faes syml. Os caiff Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ei gadarnhau yn y dyfodol, efallai bydd posibilrwydd y gall CWVYS gynorthwyo i'w weithredu.

A yw CWVYS wedi cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol i ddangos effaith eu hymyriadau gwaith ieuencid? Cyfyngir ar rôl CWVYS gan y ffaith fod gan lawer o sefydliadau dechnegau a dulliau a ffafrir ganddynt yn eu lle yn barod, neu gan y ffaith y cânt eu llywodraethu gan ofynion cyrff ariannu. Mae'n debyg fod rôl addysgol CWVYS yn canolbwyntio ar hyrwyddo astudiaethau achos a rhannu gwybodaeth ynghylch arferion da. Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried ynghyd â CWVYS a ddylai CWVYS:

- wneud gwaith mwy rhagweithiol o ran datblygu 'sylfaen gwybodaeth' o dechnegau a dulliau y gallai'r holl sector (ac nid Aelodau yn unig) eu defnyddio, ac yn wir, o fewn gwaith ieuencid yn ei gyfanrwydd, neu a ddylai fod yn darparu dolenni cyswllt at sefydliadau eraill sydd yn gwneud hyn?
- bod â rôl a thargedau i hyrwyddo'r *Marc Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru?*

Yn ychwanegol, cafwyd sylwadau yn barod ynghylch cyfleoedd i CWVYS gryfhau ei gysylltiadau â Chynghorau Gwirfoddol Sirol ac mae rhannu arferion da yn faes arall ble gallai CWVYS a Chynghorau Gwirfoddol Sirol gydweithio.

Amcan 5: Ymchwilio ynghylch dod yn sefydliad cynaliadwy a datblygu'n sefydliad o'r fath

Mae'r Amcan hwn yn wahanol i Amcanion 1-4. Mae'r pedwar arall yn canolbwyntio ar y rôl a wneir gan CWVYS er budd y sector gwaith ieuencid gwirfoddol yn ei gyfanrwydd, ac mae Amcan 5 yn ymwneud â'i gyllid. Pennwyd yr Amcan hwn am y tro cyntaf yn 2016-17, yn ddiweddarach na'r Amcanion eraill. Felly, ni ellir ei werthuso i'r un graddau, oherwydd nid yw'n ymwneud ag effaith CWVYS ar y sector yn ei gyfanrwydd.

Serch hynny, mae CWVYS wedi gwneud cynnydd o ran elfen "ymchwilio" yr Amcan hwn trwy Ddiwrnod i Ffwrdd i Ymddiriedolwyr a'r defnydd o ymgynghorwyr allanol ynghylch cynaliadwyedd, ac mae hynny wedi arwain at lunio Cynllun Gweithredu.

Crynodeb o Effaith Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer CWVYS

Nid yw'r Gwerthusiad hwn yn cwmpasu cynnig argymhellion ynghylch pa un ai a ddylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu CWVYS neu beidio, neu faint allai'r cyllid hwnnw fod. Dim ond Llywodraeth Cymru a all ateb y cwestiynau hyn, wedi'i llywio gan y Gwerthusiad a gan gofio'r ystyriaethau economaidd ehangach ynghylch blaenoriaethau sy'n cystadlu. Cwmpas y Gwerthusiad yw cynnig sylwadau ynghylch *effaith* y Grant.

Ym marn y Gwerthuswr hwn, mae'r Grant ar gyfer CWVYS wedi arwain at effaith cadarnhaol ar y cyfan. Yn sicr, roedd Aelodau CWVYS yn ei amddiffyn yn gadarn. Mae fy sylwadau yn ymwneud yn fwy â thryloywder, gwella gwybodaeth, a rhwystrau, yn hytrach na pherfformiad CWVYS ei hun.

Mae CWVYS wedi sicrhau'r effaith gryfaf ar Amcan 2 (Llais Cenedlaethol). Roedd dau gyfwelai o Awdurdodau Lleol yn tybio i ba raddau yr oedd yn cynrychioli llais dilys y sector gwaith ieuencid gwirfoddol, a pha un ai a oedd wedi'i ddominyddu gan safbwyntiau'r sefydliadau Cenedlaethol mwy. Credai cyfweleion yn gryf fod gan CWVYS brosesau effeithiol yn eu lle i gasglu a chyfleu llais yr Aelodau, ac roedd sefydliadau yn gwerthfawrogi hyn yn benodol. Ym marn y Gwerthuswr hwn, mae'n ymddangos fod CWVYS yn cynrychioli llais dilys, ond mae angen iddo ddisgrifio ei brosesau ymgynghori yn well, yn cynnwys sut mae'n defnyddio'r wybodaeth hon.

Yr ail effaith gryfaf yw'r un ar Amcan 1 (bod yn gynrychiadol a pherthnasoedd effeithiol). Yn sicr, roedd Aelodau yn credu fod hyn yn cael ei gyflawni. Cafwyd cwestiynau gan rai Awdurdodau Lleol ynghylch pa mor ddigonol yw presenoldeb CWVYS mewn rhai ardaloedd daeryddol: byddai gwybodaeth well yn cynorthwyo i ddangos tystiolaeth o hyn. Dylai CWVYS a Llywodraeth Cymru barhau i ddatblygu cronfa ddata a rennir a dealltwriaeth a rennir ynghylch darpar aelodau cymwys sy'n bodoli ledled y wlad, ac mae angen segmentu Aelodau a darpar aelodau yn well. Byddai hyn yn helpu i gadarnhau yn rheolaidd i ba raddau mae CWVYS wedi treiddio ledled y wlad. Mae'r Gwerthuswr yn ystyried fod lle i wella'r maes hwn ymhellach, ond nid yw'n broblem.

Mae'r effaith ar Amcan 3 (Awdurdodau Lleol) wedi bod yn anghyson ar y lefelau cenedlaethol a lleol. Mae gennyf i amheun ynghylch y gallu i gyflawni'r Amcan hwn fel mae wedi'i eirio ar hyn o bryd. Pe cai'r Amcan ei ail-eirio i ganolbwyntio ar bartneriaethau a chysylltiadau â rhwydweithiau lleol, efallai gellid cynnwys rhagor o effaith.

Yn debyg, mae'r effaith ar Amcan 4 (dangos effaith) wedi bod yn anghyson hefyd. Mae llawer o'r sylw wedi'i roi i "gyfraniadau da yn sicrhau canlyniadau da" ac elwa o gyfleoedd i rannu a hyrwyddo arferion da. Er bod Aelodau yn gwerthfawrogi hyn, nid tasgau y gall CWVYS yn unig eu cyflawni yw'r rhain.

Pe bai Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol wedi bod yn ei le, efallai byddai CWVYS wedi canfod rôl o ran cynorthwyo i'w weithredu, trwy ryw ffordd neu'i gilydd. Efallai bydd lle i CWVYS wneud rhagor

mewn perthynas â hyn yn y dyfodol, os caiff Fframwaith o'r fath ei gadarnhau.

Yn olaf, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu 84% o gyllid CWVYS yn 2015-16. Deilliodd oddeutu 12% o Grantiau eraill (sydd heb eu nodi yn yr Adroddiad Blynyddol), ac roedd ffioedd aelodaeth yn cyfrannu oddeutu 4% yn unig. Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried a oes "buddion" mae Aelodau yn eu cael ar hyn o bryd (megis yr wybodaeth a rennir ynghylch polisiau, strategaethau a chyllid, neu gylchlythyrau) a ddylai fod ar gael i'r Sector gyfan, boed yn Aelodau sydd wedi talu neu beidio.

1 CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu Gwerthusiad o Effaith Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS). Gwnaed y Gwerthusiad gan yr ymchwilydd a'r ymgynghorydd annibynnol Mark Brierley Consulting ym Mawrth ac Ebrill 2017.

2 DISGRIFIAD CRYNO O CWVYS

2.1 Datganiad Sefyllfa CWVYS (Mawrth 2017)

I gynnig rhywfaint o gyd-destun ynghylch beth yw CWVYS, dyfynnir y canlynol o *Ddatganiad Sefyllfa CWVYS* (Mawrth 2017), a roddodd CWVYS i'r Gwerthuswr.

CWVYS yw'r corff cynrychioliadol annibynnol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol, ac mae'n galluogi llais cyfunol ar gyfer y rhai sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc ledled Cymru.

Mae'n darparu gwasanaeth rheng flaen i fudiadau ieuenctid gwirfoddol ac yn gyfrwng pwysig lle mae Llywodraeth Cymru yn cyflenwi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru ac amrywiaeth o brosiectau pwysig.

Pedair swyddogaeth allweddol CWVYS, a sefydlwyd 70 mlynedd yn ôl fel Cynhadledd Sefydlog Mudiadau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru, yw:

- **Cynrychiolaeth genedlaethol ac arweinyddiaeth strategol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol** (gan gynnwys brocera, datblygu polisi, eiriolaeth, siapio a dylanwadu, cyfathrebu strategol, codi proffil y sector ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru ac yn rhyngwladol).
- **Rhwydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol** (yn cynnwys partneriaethau brocera, cynrychiolaeth ranbarthol, hyrwyddo ieithoedd a diwylliannau Cymru).
- **Rhannu gwybodaeth** (gan gynnwys darparu gwybodaeth am gyllid a chymorth, gwybodaeth ynghylch polisi, digwyddiadau).
- **Hyrwyddo dysgu ac arferion da a hwyluso ymchwil a gwerthuso** (gan gynnwys arferion gwaith ieuenctid da a sicrhau ansawdd, datblygu'r gweithlu / hyfforddiant / achredu, casglu data a mesur effaith gymdeithasol / economaidd).

Mae'r Datganiad Sefyllfa hefyd yn disgrifio rhywfaint o'r gwaith mae CWVYS wedi'i wneud:

Mae gwaith rheng flaen CWVYS yn cynnwys:

- Cymorth i weithredu **Strategaeth Genedlaethol** Llywodraeth Cymru **ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru**.
- Cefnogaeth ar gyfer **Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltiad a Dilyniant Ieuenctid** ac aelodaeth o Grwpiau Rhanbarthol y Fframwaith.
- **Cyfraniad strategol at bolisi ac ymarfer** trwy aelodaeth o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn ogystal â'i weithgorau amrywiol; Grŵp y Trydydd Sector/ Ysgrifennydd Addysg y Cabinet; Grŵp y Trydydd Sector/Ysgrifennydd Cymunedau a Phlant y Cabinet; Partneriaeth GwirVol; Pwyllgor Ymgynghorol Erasmus+ yn y Deyrnas Unedig; Pwyllgor Gwerthuso Cenedlaethol Erasmus+ yn y Deyrnas Unedig; unig bartneriaid Eurodesk UK yng Nghymru; aelod o banel gwerthuso Gwirfoddoli Cymru.
- **Cydlynu a datblygu mentrau traws-sector**, drwy bedwar rhanbarth CWVYS a gwaith Cydlynwyr Rhanbarthol CWVYS, i hyrwyddo gweithio effeithiol rhwng / ar draws sectorau gwirfoddol a chynaleidig.
- **Hwyluso datblygiad fframweithiau ar gyfer gwaith consortia** gan ac ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol a galluogi sefydliadau i gydweithio a sicrhau gwaith wedi'i gomisiynu o bwys cenedlaethol ar yr un pryd.
- **Cadeirio a chydlynu Grŵp Adolygu'r Prif Swyddog Ieuenctid/CWVYS** i lunio'r datganiad diwygiedig ynghylch y cwricwlwm ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru: *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*.
- Trwy gyfrwng Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, datblygu a darparu'r Rhaglen Cam 4, yn cynnwys **Rhaglen Hyfforddiant Sefydlu** arloesol ac achrededig CWVYS, *Cam Tuag at Waith Ieuenctid*, a **Marc Ansawdd CWVYS**.
- **Cymorth gweinyddol ar gyfer Connect Cymru**.

2.2 Strwythur ac Adnoddau

Mae CWVYS yn cael **cymorth grant gwerth £105,000** yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru fel cyfraniad tuag at arian craidd/costau rheoli i alluogi'r sefydliad i gyflawni nifer o Amcanion diffiniedig.

Roedd Adroddiad y Trysorydd yn *Adroddiad Blynyddol 2015-2016 CWVYS* (Gorffennaf 2016) yn datgan fod cyfanswm y grantiau yn £124,382, ac roedd yr incwm yn sgil ffioedd aelodaeth yn £5,567. Mae hyn yn golygu fod oddeutu **84% o gyllid CWVYS** yn 2015-16 yn deillio o'r Grant gan Lywodraeth Cymru, 12% yn deillio o Grantiau eraill (sydd heb eu nodi yn yr Adroddiad Blynyddol) ac oddeutu 4% yn deillio o ffioedd aelodaeth.

Mae gan CWVYS **Bwyllgor Gwaith** (a elwir hefyd yn **Fwrdd Ymddiriedolwyr**) sy'n cynnwys 20 o Ymddiriedolwyr, deg o'r sefydliadau Cenedlaethol a deg o'r sefydliadau Lleol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith oedd Keith Towler, un o Gomisiynwyr Plant blaenorol

Cymru (ymhlith nifer o swyddi eraill), yr Is-gadeirydd oedd Rocio Cifuentes o'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) yn Abertawe, a'r Trysorydd oedd Marco Gil-Cervantes o ProMo Cymru. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cynnull dair gwaith y flwyddyn.

Bydd y **Grŵp Swyddogion** sy'n cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Trysorydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn cynnull o leiaf tair gwaith y flwyddyn.


Bydd y **Grŵp Datblygu'r Gweithlu**, sy'n is-grŵp o'r Pwyllgor Gwaith yn cynnull dair gwaith y flwyddyn. Yn 2015-2016, roedd 23 aelod o Grŵp Datblygu'r Gweithlu.

Cynhelir **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB)** unwaith y flwyddyn yng Ngorffennaf (pan etholir Ymddiriedolwyr a'r Cadeirydd). Yn y CCB yn 2016, cynrychioliod 49 sefydliad a 21 unigolyn.

Mae gan CWVYS **Grŵp Ymgynghorol o Is-lywyddion**, dan arweinyddiaeth Wayne David AS, sy'n cynnwys deuddeg o Is-lywyddion. Dim ond Aelodau a all fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith. Ar y cyfan, nid yw Is-lywyddion yn Aelodau, ond maent yn unigolion o'r tu allan a all gynnig safbwynt gwahanol ynghylch materion polisi a strategol.

O ran **staff cyflogedig**, mae gan CWVYS: Brif Weithredwr Amser Llawn, Paul Glaze; Cynorthwydd Gweithredol rhan amser, Helen Jones; Cydlynnydd Rhanbarthol sesiynol, Catrin Jones o Urdd Gobaith Cymru; a Swyddog Cyllid sesiynol, Sarah Fox. Ni ariennir swydd y Cydlynnydd Rhanbarthol gan Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer CWVYS.

Ffigur 1: Strwythur CWVYS (Mai 2017)¹



¹ Mae hyn wedi newid ers cwblhau'r adroddiad ym Mai 2017.

3 METHODOLEG

3.1 Amcanion ar gyfer CWVYS

Yn y cyfnod a gwmpasir gan y Gwerthusiad, roedd Llywodraeth Cymru a CWVYS wedi cytuno ar bum Amcan ar gyfer y Grant. Dangosir y rhain isod. Daliwch sylw: nid oedd y testun trwm yn y gwreiddiol, ac mae *Mark Brierley Consulting* wedi ychwanegu hynny i roi ffocws i'r Gwerthusiad.

- **Amcan 1:** Bod yn **gynrychiadol** a chynnal **perthnasoedd effeithiol** â sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuencid ledled Cymru.
- **Amcan 2:** Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gwaith ieuencid i **ymgysylltu yn fwy strategol**, a chaniatáu iddynt gael **gwrandawriad i'w llais** mewn penderfyniadau ynghylch polisi.
- **Amcan 3:** Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuencid i **gydweithio'n fwy effeithiol ag Awdurdodau Lleol**.
- **Amcan 4:** Cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol i **ddangos effaith** eu hymyriadau gwaith ieuencid.

Ar gyfer 2016-2017, pennwyd Amcan ychwanegol:

- **Amcan 5:** Ymchwilio ynghylch dod yn sefydliad cynaliadwy a datblygu'n sefydliad o'r fath.

Defnyddiwyd yr Amcanion hyn fel ffocws y Gwerthusiad o'r Grant.

3.2 Dulliau

Y prif ddull o wneud y Gwerthusiad oedd cyfweiliadau unigol. Cafwyd cyfarfod wyneb yn wyneb â'r Prif Weithredwr, Paul Glaze, a'r Cadeirydd, Keith Towler, yng Nghaerdydd. Fe wnaeth yr ymchwilydd hefyd gynnal pedwar cyfweiliad unigol arall yn swyddfeydd CWVYS ar ôl cwrrd â'r Prif Swyddog Gweithredol, fel y trefnwyd ymlaen llaw â'r Prif Swyddog Gweithredol. Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau eraill dros y ffôn oherwydd yr amserlen fer i gyflawni'r gwaith.

Roedd cyfarwyddiadau'r tendr yn datgan y byddai angen i'r gwerthuswr gyfweild:

- Prif Weithredwr CWVYS
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd CWVYS
- Cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CWVYS
- Cynrychiolwyr o leiaf naw o sefydliadau cenedlaethol a lleol sy'n aelodau o CWVYS ar hyn o bryd ond ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith. Dylai o leiaf tri o'r sefydliadau hyn fod wedi'u lleoli yng nghanolbarth/gogledd Cymru neu dylent fod â swyddfeydd yno.
- O leiaf pedwar sefydliad gwaith ieuencid gwirfoddol sydd ddim yn aelodau o CWVYS.
- Grŵp y Prif Swyddogion Ieuencid.

Gwnaed y dewis uchod ar sail y gymysgedd o bobl yr oedd cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddent yn ddefnyddiol i'w cynnwys; awgrymwyd aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac aelodau sydd ddim yn rhan o'r Pwyllgor Gwaith gan y Prif Weithredwr; a dewiswyd eraill ar hap gan Mark Brierley.

Ar y cyfan, fe wnaeth y sawl a ymatebodd i'r cais am gyfweiliad ymateb yn gyflym ac roedd eu sylwadau

yn ddiwyll a gonest. Fodd bynnag, ni chafwyd ymateb gan nifer o bobl a wahoddwyd i gyfranogi. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y cyfweiliadau a wnaed a sawl gwaith y gofynnwyd i bobl gyfranogi ond ni chynhaliwyd cyfweiliad.

Tabl 1: Cyfweiliadau a Gynhaliwyd a Chyfweleion y Gofynnwyd iddynt Gyfranogi

	Cynhaliwyd Cyfweiliad	Gofynnwyd iddynt gyfranogi ond ni chynhaliwyd cyfweiliad	Cyfanswm
Staff CWVYS	2		2
Pwyllgor Gwaith (Ymddiriedolwyr)	8	2	10
Is-lywyddion	3	1	4
Aelodau Anweithredol	9	6	15
Ddim yn Aelodau	2	3	6
Awdurdodau Lleol	7	5	12
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	1		1
Cyfanswm	32	17	49

Daliwch sylw:

- Nid oedd yr Is-lywyddion yn y rhestr wreiddiol yng nghyfarwyddiadau'r tendr, ond roeddent yn ychwanegiad defnyddiol.
- Cafodd chwe Aelod Anweithredol sydd â phencadlys yng nghanolbarth a gogledd Cymru wahoddiad i gyfranogi, ond dim ond dau a ymatebodd.
- Cafodd Wyth Awdurdod Lleol eu targedu'n wreiddiol; ychwanegwyd pedwar arall yn hwyr yn y broses. Fe wnaeth saith o'r wyth gwreiddiol a wahoddwyd ymateb i'r gwahoddiad, a dywedodd un ohonynt na allai gyfranogi oherwydd ffactorau allanol, a dim ond un o'r Awdurdodau Lleol gwreiddiol a wahoddwyd na wnaeth ymateb). Dim ond un o'r pedwar ychwanegol oedd yn gallu cyfranogi mewn cyfweiliad oherwydd cyfyngiadau amser.
- Gofynnwyd i Awdurdodau Lleol am awgrymiadau ynghylch sefydliadau lleol o'r sector gwirfoddol oedd ddim yn aelodau a allai gyfranogi o bosibl. Ni wnaeth y dull hwn sicrhau cymaint â hynny o gyfweleion posibl, felly cynhaliwyd ychydig yn llai o gyfweiliadau â'r sawl oedd ddim yn Aelodau na'r hyn a fwriedid yn wreiddiol.

Mae rhestr lawn o'r cyfweleion yn Atodiad 1.

4 AMCAN 1: BOD YN GYNRYCHIADOL A CHYNNAL PERTHNASOEDD EFFEITHIOL Â SEFYDLIADAU GWIRFODDOL SY’N CYNNIG DARPARIAETH GWAITH IEUENCTID LEDLED CYMRU.

Y ddau ymadrodd allweddol y canolbwyntiwyd arnynt wrth ystyried yr Amcan hwn oedd **cynrychiadol** ac **effeithiol**.

4.1 Cynrychioldeb

4.1.1 Maint ac Amrywiaeth Sefydliadau sy’n Aelodau

Roedd cyfweleion o blith Ymddiriedolwyr, Aelodau ac Is-lywyddion CWVYS yn credu fod CWVYS yn **dra cynrychiadol** o’r sector gwaith ieuencid gwirfoddol o ran amrywiaeth y sefydliadau a gynrychiolir.

Dywedodd nifer ohonynt fod cymysgedd da o sefydliadau o **feintiau gwahanol**. Fel y nodwyd eisoes yn adran 2.2 ynghylch *Strwythur ac Adnoddau*, mae Pwyllgor Gwaith CWVYS wedi’i rannu’n gyfartal rhwng sefydliadau Cenedlaethol a Lleol. Dywedodd sefydliadau llai eu bod yn teimlo eu bod yn cael triniaeth gyfartal yn y Pwyllgor Gwaith, y Cyfarfodydd Rhanbarthol ac yng Ngrŵp Datblygu’r Gweithlu. Dywedodd un unigolyn, “Bydd y sefydliadau mwy yn cynorthwyo’r sefydliadau llai yn dda iawn.”

Dywedodd dau oedd yn cyfranogi yng ngwaith CWVYS ers degawd neu ragor fod CWVYS wedi gwella yn y cyd-destun hwn. Dywedodd un bod CWVYS yn y gorffennol, pan oedd dan ddylanwad sefydliadau cenedlaethol mwy yn bennaf, yn teimlo “braidd fel clic” ond nid oedd hynny’n wir bellach, a dywedodd un arall fod CWVYS wedi “gwneud ei orau glas” i gynyddu’r nifer o sefydliadau bychan oedd yn Aelodau.

Yn wahanol i’r cynnydd mewn amrywiaeth, holai dau ymddiriedolwr o’r Awdurdodau Lleol i ba raddau roedd gan Aelodau CWVYS **ffocws ar "waith ieuencid traddodiadol"** yn hytrach na bod yn sefydliadau sy’n “**darparu gwasanaethau i bobl ifanc**”. Mae gwefan CWVYS yn datgan: *Mae aelodaeth yn agored i bob sefydliad gwirfoddol ac nid am elw sy’n cytuno â nod y Cyngor ac yn rhannu ei gylch gorchwyl ar gyfer gwaith ieuencid*. Yn ddiddorol iawn, ni wnaeth unrhyw Aelod o CWVYS gwestiynu dilysrwydd ehangder yr aelodaeth bresennol: yn wir, croesawid amrywiaeth. Beth sy’n bwysig yw pa un ai a yw CWVYS yn datgan llais dilys ar ran y sector gwaith ieuencid gwirfoddol, yn seiliedig ar brofiad ac arbenigedd, ac yn sicrhau llais gwirioneddol gyfunol. Dywedir rhagor am hyn dan Amcan 2. Ni fyddai microreoli allanol o’r diffiniad o aelodau cymwys yn ddefnyddiol.

Mae Pwyllgor Gwaith CWVYS wedi trafod a ddylid sicrhau **cynrychiolaeth gan bobl ifanc** ar y pwyllgor gwaith, ond penderfynwyd ei fod yn well annog Aelodau i hybu hyn yn eu sefydliadau eu hunain, o gofio nad yw CWVYS yn darparu gwasanaethau rheng flaen ar gyfer pobl ifanc.

4.1.2 Gwasgariad Daeryddol

Unwaith yn rhagor, cytunai'r Aelodau o CWVYS a gyfwelwyd (yn cynnwys Ymddiriedolwyr) fod gan CWVYS **wasgariad daeryddol** da yng Nghymru. Ychydig iawn o Aelodau CWVYS sydd â phencadlys yng nghanolbarth neu ogledd Cymru, ac mae llawer o'r rhai hynny yn sefydliadau llai. Ychydig iawn o ymateb a gafodd y Gwerthuswr i geisiadau am gyfweliadau gyda'r Aelodau hynny, ond ni fyddai'n ddiogel llunio unrhyw gasgliadau o hynny. Hefyd, mae gan nifer o Aelodau sydd â Phencadlys yn Ne Cymru swyddfeydd yng Nghanolbarth/Gogledd Cymru a ddefnyddir ganddynt i ddarparu gwasanaethau (e.e. Clybiau Bechgyn a Merched Cymru; y Groes Goch Brydeinig; Prince's Trust Cymru; Urdd Gobaith Cymru) ac mae gan nifer o rai eraill ganghennau dan arweiniad gwirfoddolwyr (e.e. Gwobr Dug Caeredin yng Nghymru; Girlguiding Cymru; Scouts Cymru; Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru).

Roedd canfyddiad gan dri o'r cysylltiadau o Awdurdodau Lleol fod CWVYS yn **gryfach yn y De** (neu'n fwy penodol, yn y De-ddwyrain), ond disgrifiwyd hyn gan un fel rhywbeth sy'n adlewyrchu'r ffaith fod gan fwy o sefydliadau gwirfoddol eu pencadlys yno, rhywbeth 'eithaf nodweddiadol' o *bob* gwasanaeth yng Nghymru, a dywedodd un arall fod angen i CWVYS "weld tu hwnt i'r Bannau [Brycheiniog]". Dywedodd un cyfwelai o'r Pwyllgor Gwaith fod angen i CWVYS allu disgrifio ei gyrhaeddiad ledled y wlad yn well, efallai.

Oddeutu chwe blynedd yn ôl, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid gwerth £20,000 y flwyddyn i CWVYS gael pedwar **Cydlynnydd Rhanbarthol**. Mae toriadau ariannol yn golygu fod gan CWVYS un Cydlynnydd Rhanbarthol sesiynol yn unig erbyn hyn, sydd heb ei hariannu gan Grant Llywodraeth Cymru, ac mae'n cydlynu cyfarfodydd ar draws pedwar rhanbarth (Gogledd Cymru; Canol De Cymru; De-ddwyrain Cymru; De-orllewin a Chanolbarth Cymru). Bydd CWVYS yn ceisio trefnu tri chyfarfod o'r fath ym mhob rhanbarth bob blwyddyn (disgrifir eu swyddogaeth a'u gwerth canfyddedig yn adran 42.1 ynghylch y *Buddion a Werthfawrogir Fwyaf gan Aelodau CWVYS*) ac mae CWVYS wedi cyfuno'r Rhanbarthau i leihau costau.

Yn 2015-16, cynhaliwyd 12 Cyfarfod Rhanbarthol (tri ym mhob Rhanbarth) a chafwyd 106 o fynychwyr a 15 siaradwr gwadd.

Yn 2016-17, cynhaliwyd chwe Chyfarfod Rhanbarthol (llai o gyfarfodydd Rhanbarthol fel mesur arbed arian) a chafwyd 41 o fynychwyr a saith siaradwr gwadd.

Mae'r toriadau ariannol a'r lleihad yn nifer y Cyfarfodydd Rhanbarthol wedi lleihau presenoldeb CWVYS ar lawr gwlad ledled y wlad. Mae diffyg adnoddau yn cyfyngu ar faint o gyswllt wyneb yn wyneb a chyfleodd rhwydweithio y gall CWVYS eu darparu ledled y wlad. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd nad oes cyllid allanol ar gael i dalu am ei waith fel rheolwr llinell y Cydlynnydd Rhanbarthol na logisteg trefnu'r cyfarfodydd hynny (e.e. llogi ystafell, lluniaeth).

4.1.3 Prosesau i Nodi a Chysylltu ag Aelodau Newydd

Mae CWVYS yn defnyddio **amrywiaeth o fecanweithiau i nodi a chysylltu** ag aelodau newydd. Gwneir rhywfaint o waith i dargedu sefydliadau sy'n hysbys; daw rhai yn sgil argymhellion llafar neu bersonol; bydd eraill yn oportunitynistaidd. Mae cyswllt wyneb yn wyneb, e-byst, llythyrau, cyfryngau cymdeithasol, presenoldeb mewn digwyddiadau, gwahoddiadau i gyfarfodydd rhanbarthol, ymateb i awgrymiadau a dulliau gweithredu uniongyrchol oll yn gwneud cyfraniad. Darperir cyfleoedd yn sgil presenoldeb CWVYS mewn digwyddiadau megis y Gynhadledd Gwaith leuencid Genedlaethol, Wythnos Gwaith leuencid a Chynhadledd Flynyddol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) (ni wnaeth y Gwerthuswr holi CWVYS a fydd ganddo stondinau mewn digwyddiadau o'r fath.

Dyweddod un Aelod a gyfwelwyd nad yw'n ymddangos fod strategaeth farchnata/cysylltiadau personol yn ei lle i ddenu'r sawl ddim yn Aelodau: mae'n ymddangos yn fwy ad hoc ac oportiwnistaidd, a dibynnir i raddau helaeth iawn ar gyswllt personol. Dywedodd Aelod arall a gyfwelwyd nad oedd wedi clywed am CWVYS nes i'r Prif Weithredwr gysylltu.

Roedd cyfweiliadau â chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol yn ddi-ddorol. Credai rhai bod gan CWVYS bresenoldeb cryf yn y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yn eu hardal; credai dau ei fod yn gyfyngedig; dywedodd dau nad oedd unrhyw bresenoldeb o gwbl yn eu hardal hwy. Cyfeiriodd sawl un o'r rhain at faint bychan eu sector gwaith ieuenctid gwirfoddol lleol hefyd. Roeddent oll yn credu fod ganddynt ddealltwriaeth dda, neu resymol, o bwy oedd eu sefydliadau gwirfoddol eu hunain, ond nid oeddent yn gwybod yn bendant a oedd CWVYS yn elwa o rwydweithiau lleol.

Dyweddod tri chyfwelai fod gallu CWVYS i recriwtio aelodau newydd ar ei liwt ei hun yn gyfyngedig: "Mae'n gwneud ei orau glas â'r adnoddau sydd ganddo ar hyn o bryd."


Cafwyd sylwadau yn ystod y Gwerthusiad fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhestr o 139 o ddarpar aelodau i CWVYS, rhestr y credid i CGGC ei llunio, ac o'u plith, credai CWVYS nad oedd 63 yn ddarparwyr gwaith ieuenctid cymwys, roedd 19 wedi dirwyn i ben, roedd 29 eisoes yn hysbys ac yn cael eu targedu gan CWVYS, a disgrifid y 28 arall fel "darparwyr lefel isel neu ddarparwyr fforymau." Roedd CWVYS hefyd yn gwybod am 51 darpar aelod arall y gellid eu recriwtio nad oeddent ar restr CGGC. Mae hyn yn awgrymu dau beth i'r Gwerthuswr:

- Dylai CWVYS a Llywodraeth Cymru barhau i rannu rhestrau o ddarpar aelodau y gellid eu recriwtio, ac yn sgil hynny, darparu dealltwriaeth dryloyw a rennir ynghylch pwy sy'n ddarpar aelodau y gellid eu recriwtio (a phwy sydd ddim).
- A ddylai CWVYS wneud rhagor o ddefnydd o rwydweithiau lleol / Awdurdodau Lleol a Chynghorau Gwirfoddol Cymunedol fel dull o gysylltu â darparwyr lleol? (Dywedir rhagor am hyn yn adran 6 ynghylch Amcan 3).

4.1.4 Twf

Mae Ffigur 2 yn dangos y twf yn nifer y sefydliadau oedd yn aelodau o CWVYS rhwng 2009 a 2017. Dengys y llinell tuedd fod cynnydd gweddol reolaidd wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ffigur 2: Newid yn Nifer y Sefydliadau sy'n Aelodau o CWVYS 2009-2017



Mae'r darlun llawn yn fwy na nifer y sefydliadau. Mae gan sawl sefydliad Cenedlaethol sy'n Aelod ganghennau na all ymuno ar eu liwt eu hunain. Mae'n fwy dealladwy a strwythuredig i ystyried y sefydliadau Cenedlaethol hyn fel Aelodau unigol. Efallai fod sefydliadau Cenedlaethol hefyd yn fwy tebygol o fod yn Aelodau, oherwydd rhesymau hanesyddol, sy'n golygu fod llai o botensial o bosibl i recriwtio aelodau newydd o blith y sefydliadau Cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae CWVYS yn rhannu ei aelodau ar dri lefel at ddibenion pennu ffioedd aelodaeth:

- Sefydliadau gwaith ieuencid cenedlaethol;
- Sefydliadau gwaith ieuencid rhanbarthol (yn gweithio mewn hyd at chwe ardal Awdurdod Lleol);
- Sefydliadau gwaith ieuencid cymunedol/gwirfoddol (yn gweithio mewn un ardal Awdurdod Lleol).

Argymhellir y dylai CWVYS ddarparu gwybodaeth ynghylch aelodau i Lywodraeth Cymru yn unol â'r segmentau uchod, gan gynyddu tryloywder ynghylch pa mor gynrychiadol yw CWVYS o wahanol fathau o sefydliadau ac ynghylch y gwasgariad daearyddol. Byddai hynny'n hybu dealltwriaeth fwy soffistigedig o aelodau CWVYS, ac ynghyd â datblygiad parhaus cronfa ddata a rennir ynghylch targedau arfaethedig, gallai hynny hefyd arwain at farchnata mwy penodol ar gyfer y segmentau.

Mae'r tabl isod yn cynnig enghraifft o sut gallai hyn edrych.

Tabl 2: Sut Gallai Aelodaeth CWVYS Gael Ei Chyfleu

	Nifer ar Ddechrau'r Flwyddyn	Nifer Yr Aelodau Newydd	Nifer sy'n Gadael	Nifer ar Ddiwedd y Flwyddyn
CENEDLAETHOL				
RHANBARTHOL Hyd at chwe ardal Awdurdod Lleol				
LLEOL Un ardal Awdurdod Lleol	Rhanbarth 1			
	Rhanbarth 2			
	Rhanbarth 3			
	Rhanbarth 4			

Yn adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru (*Pa fath o wasanaeth ieuencid mae ar Gymru ei eisiau? Adroddiad yr ymchwiliad i Waith Ieuencid* (Rhagfyr 2016)), nodir fod CWVYS wedi dweud nad yw 30% o'i aelodau yn rhagweld y gallant barhau wedi'r flwyddyn ariannol nesaf, felly byddai'r uchod yn caniatáu i hyn gael ei olrhain hefyd.

4.1.5 Crynodeb: A yw CWVYS yn Gynrychiadol?

A yw CWVYS yn gynrychiadol o sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuencid ledled Cymru? Dywedodd aelodau fod CWVYS yn gynrychiadol, o ran yr amrywiaeth o fathau o sefydliadau a gynrychiolir a'u maint, a'u gwasgariad daearyddol, a bod CWVYS wedi gwella yn yr ystyr hwn. Mae CWVYS wedi ehangu o 46 aelod yn 2009-10 i 97 yn 2016-2017. Fodd bynnag, roedd pedwar o blith yr wyth cyfwelai o Awdurdodau Lleol yn fwy amheus ynghylch y nifer o Aelodau sydd gan CWVYS yn eu hardal.

Nid yw CWVYS yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i gyflogi Cydlynnydd Rhanbarthol ac mae'n darparu £5,000 ar wahân i ariannu hyn, ond nid yw hyn wedi rhwystro twf.

Ym marn y Gwerthuswr, mae CWVYS yn ymddangos yn eithaf cynrychiadol, ond mae lle i wneud y canlynol:

- datblygu perthnasoedd agosach â rhwydweithiau lleol (megis Awdurdodau Lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol) i wella gwybodaeth darpar aelodau;
- rhannu setiau data ynghylch aelodau presennol a darpar aelodau â Llywodraeth Cymru, er mwyn datblygu dealltwriaeth a rennir;
- gwella adroddiadau ynghylch nifer yr Aelodau trwy segmentu gwell (fel y gwelir yn Nhabl 1).

Byddai hyn oll yn cyfrannu at sicrhau fod effaith yr Amcan hwn yn fwy tryloyw, er budd Llywodraeth Cymru a CWVYS.

4.2 Perthnasoedd Effeithiol â Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith Ieuenctid

4.2.1 Buddion a Werthfawrogir Fwyaf gan Aelodau CWVYS

Fe wnaeth nifer o gyfweleion gynnog sylwadau ynghylch cynnal perthnasoedd effeithiol â'i Aelodau.

Roedd Gwybodaeth yn gryfder yn y cyd-destun hwn. Credai Aelodau (yn cynnwys Ymddiriedolwyr) eu bod yn cael gwybodaeth yn gyflym iawn ("yn boeth o'r wasg") ar faterion megis polisïau, strategaethau a chyfleoedd am arian. Dywedodd un ar ddeg o blith yr un ar bymtheg cyfwelai oedd o sefydliadau oedd yn aelodau o CWVYS fod hyn yn llawer cyflymach nag unrhyw beth y byddant yn ei gael o ffynonellau eraill (megis Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru) a dywedodd rhai o'r sefydliadau llai na fyddent yn cael gwybodaeth gan unrhyw un arall. Dywedodd un unigolyn eu bod yn "llwyddo i anfon cyfanswm anhygoel o wybodaeth at eu haelodau" a bod yr wybodaeth honno "ar flaenau eich bysedd". Ychwanegodd un arall y "gallwch chi ymddiried yn yr wybodaeth." Dywedodd pedwar cyfwelai fod rhai darnau o wybodaeth wedi'u teilwra i raddau helaeth iawn: "Mae'n bersonol iawn. Byddant bob amser yn meddwl amdanom ni: yn ystyried pethau ac yn meddwl y byddent yn addas i ni." Y farn a fynegir yn glir yw bod Aelodau yn credu mai dim ond CWVYS a all ddarparu'r lefel hwnnw o wybodaeth ragorol y maent yn ei chael ar hyn o bryd.

Roedd **Cyswllt Uniongyrchol** â'r Prif Weithredwr, y Cydlynnydd Rhanbarthol a'r Cynorthwydd Gweithredol hefyd yn gryfder, ac fe wnaeth saith cyfwelai o sefydliadau sy'n aelodau o CWVYS gyfeirio'n benodol at hyn fel budd iddynt. Gwerthfawrogid perthnasoedd personol â Swyddogion CWVYS, yn cynnwys rhai wyneb yn wyneb, trwy gyfrwng e-bost a dros y ffôn. Dywedodd Prif Weithredwr CWVYS: "Nid nifer yr aelodau sy'n bwysig: ansawdd y perthnasoedd sy'n cyfrif." Mae'n golygu mwy na bod yn hawdd mynd atoch: mae hefyd yn ymwneud â gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad. Fel y dywedodd un cyfwelai: "Os byddaf i'n siarad â'r Awdurdod Lleol neu'r Cyngor Gwirfoddol Sirol, ni fyddant yn fy neall yn syth. Bydd CWVYS yn deall yn syth. Mae hynny'n gryfder anferth: ni allwn ni fforddio gwastraffu amser." I sawl aelod, felly, mae Swyddogion CWVYS yn ffynhonnell bwysig o gyngor a chymorth.

Cafwyd yr ymateb cryfaf ynghylch **rhannu arferion da a modelau darparu**. Roedd hyn yn digwydd trwy'r cyfarfodydd amrywiol (cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr ar y lefel Cenedlaethol; cyfarfodydd Rhanbarthol; Grŵp Datblygu'r Gweithlu; y CCB), trwy rannu gwybodaeth trwy gyfrwng cylchlythyrau neu wefan CWVYS, a rhwydweithio yn gyffredinol. Credai'r mwyafrif fod cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith yn agored, cynhwysol ac â gwell ffocws nag yn y gorffennol, ond roedd un cyfwelai yn tybio a oedd y gymysgedd o sefydliadau Cenedlaethol mawr a rhai Lleol llai yn golygu fod y ddau segment yn gorfod gwrandao ar rannau sylweddol o gyfarfodydd a oedd yn amherthnasol iddynt.

Roedd y sawl a fynychai'r cyfleoedd rhwydweithio hyn yn ystyried eu bod yn werthfawr iawn. Dywedodd y sefydliadau llai yn benodol fod hynny'n caniatáu iddynt weld cyfleoedd eraill ac roedd yn eu hatal rhag cael eu hynysu. Fe wnaeth pump o'r cyfweleion gynnog sylwadau ynghylch effaith y cyfarfodydd hynny ar eu datblygiad personol eu hunain neu ddatblygiad personol eu staff, yn enwedig sefydliadau llai a oedd yn credu fod y sefydliadau mwy yn gefnogol ohonynt.

Mae angen rhywfaint o sylwadau ynghylch y **Cyfarfodydd Rhanbarthol**. Cynhelir y rhain dair gwaith y flwyddyn ac mae ganddynt agenda safonol:

- diweddariad ynghylch datblygiadau cenedlaethol gan CWVYS;
- cyfleoedd hyfforddi;

- siaradwyr gwadd
- rhwydweithio a rhannu gwybodaeth.

Bydd sefydliadau Lleol llai a sefydliadau Rhanbarthol yn tueddu i fynychu, neu aelodau o sefydliadau Cenedlaethol nad ydynt yn brif swyddogion (bydd uwch reolwyr y sefydliadau hyn yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith). Fodd bynnag, dywedodd cynrychiolwyr sawl un o'r sefydliadau llai y cysylltwyd â hwy nad oedd ganddynt amser i fynychu'r Cyfarfodydd Rhanbarthol, ac yn lle hynny, roeddent yn dibynnu ar gyswllt uniongyrchol trwy gyfrwng e-byst, galwadau ffôn a'r wybodaeth a anfonir at aelodau gan CWVYS.

A fyddai'r cyfarfodydd hyn yn parhau i ddigwydd pe na bai CWVYS yn bodoli? Byddai hynny'n debygol iawn, o ystyried eu gwerth canfyddadwy. Dywedodd un cyfweilai, "CWVYS yw'r glud sy'n glynu cymaint o sefydliadau gwahanol ynghyd", a dywedodd un arall fod "CWVYS yn cyfuno'r prosesau sy'n caniatáu iddynt ddigwydd." Ar y llaw arall, a yw'r gostyngiad yn nifer y mynychwyr o 106 yn 2015-16 i 41 yn 2016-17 yn awgrymu fod y cyfarfodydd hyn yn ddimunol yn hytrach nag yn hanfodol? Neu a ydynt yn dangos beth sy'n digwydd pan fydd llai o gyfleoedd yn sgil cynnal llai o gyfarfodydd (12 cyfarfod yn 2015-16, presenoldeb cyfartalog 8.8; 6 chyfarfod yn 2016-17, presenoldeb cyfartalog 6.8)?

Mae buddion eraill yn gysylltiedig â chyfranogi mewn **ymgyngoriadau ynghylch materion strategol a pholisi** a chael gwrandawriad i'w llais yn cael eu trafod yn fanylach o dan Amcan 2.

Ar y cyfan, yr argraff a gafwyd oedd agwedd **dewis a dethol** at Aelodaeth. Nid yw'r holl aelodau yn dymuno cyfranogi i'r un graddau. Roedd yr holl sefydliadau yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a dderbynnid a'r cyswllt uniongyrchol i gael cyngor a chymorth; roedd mwyafrif y sefydliadau yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfranogi mewn ymgyngoriadau; ond nid oedd gan rai sefydliadau yr amser/gallu/awydd i gyfranogi yn y cyfarfodydd rhwydweithio amrywiol, er bod y sawl sy'n cyfranogi ynddynt yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Gallai'r diffyg amser/gallu hefyd egluro pam na wnaeth rhai o'r sefydliadau y gwnaeth Mark Brierley ofyn iddynt fynychu cyfweiliad ymateb i'r gwahoddiad.

4.2.2 Perthnasoedd Effeithiol â Sefydliadau Gwirfoddol Nad ydynt yn Aelodau o CWVYS sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith Ieuenctid

Mae sicrhau perthnasoedd effeithiol â sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol sydd ddim yn aelodau o CWVYS yn dibynnu ar ymwybyddiaeth y naill o'r llall a pharodrwydd y ddwy ochr i ryngweithio. Yn amlwg, bydd y berthynas honno yn fwy cyfyngedig o lawer na pherthnasoedd ag Aelodau.

Mae sylw wedi'i wneud am y cyntaf o'r materion hyn yn adran 4.3.1 ynghylch *Prosesau i Nodi a Chysylltu ag Aelodau Newydd*. O ran parodrwydd, dywedwyd eisoes fod gan Aelodau ymagwedd 'dewis a dethol' at fuddion posibl aelodaeth, a byddai'r un peth yn wir am aelodau newydd arfaethedig. Gall sefydliadau sydd ag incwm o lai na £1,000 y flwyddyn gael blwyddyn gyntaf eu haelodaeth yn rhad ac am ddim fel cymhelliant.

Yn sicr, mae CWVYS yn awyddus i ymgysylltu â sefydliadau sydd ddim yn Aelodau, naill ai yn anffurfiol (er enghraifft, trwy gyfrwng cynadleddau neu wahoddiadau achlysurol i gyfarfodydd Rhanbarthol) neu yn fwy ffurfiol trwy gysylltu'n uniongyrchol â hwy. Yn achos 2017-18, mae CWVYS a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar dargedau ynghylch presenoldeb mewn digwyddiadau, defnydd o gyfryngau cymdeithasol, a bod CWVYS yn cynnal deg cyfarfod gyda darpar aelodau ac yn cysylltu 20 o weithiau â darpar aelodau.

A ddylai CWVYS geisio ymestyn ei gyrhaeddiad at sefydliadau sydd ddim yn Aelodau trwy anfon ei gylchlythyrau a'i ddiweddariadau ynghylch datblygiadau strategaethau/polisi yn rhad ac am ddim at

unrhyw un sy'n dymuno cofrestru i gael y gwasanaeth hwnnw? Byddai buddion yn cael ei neilltuo i aelodau yn achos pob swyddogaeth arall, ond efallai fe hoffai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai hynny'n ychwanegu gwerth ac effaith at yr hyn mae'n talu i CWVYS ei wneud?

4.2.3 Crynodeb: A oes gan CWVYS Berthnasoedd Effeithiol â Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith Ieuenctid?

O safbwynt ei Aelodau, mae gan CWVYS berthnasoedd effeithiol â hwy. Bydd aelodau yn dewis ehangder y berthynas a ddymunir ganddynt. Rwy'n deall fod cyfraddau cadw Aelodau CWVYS yn dda ond mae angen dangos tystiolaeth yn rheolaidd o hyn: byddai'r tabl olrhain niferoedd yr aelodau a welir yn adran 4.1.4 ynghylch Twf yn adlewyrchu hynny'n dryloyw. Pan fydd CWVYS yn colli Aelodau yn sgil sefydliadau yn dirwyn i ben, byddai hynny'n cael ei gyfleu hefyd.

Yng nghyd-destun Sefydliadau sydd ddim yn aelodau, ac o gofio mai Llywodraeth Cymru sy'n darparu mwyafrif helaeth o gyllid CWVYS, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai gwerth ac effaith CWVYS yn gwella pe bai sefydliadau sydd ddim yn Aelodau yn gallu cofrestru am ddim i gael rhai gwasanaethau, megis rhai o'r e-byst a'r cylchlythyrau bydd CWVYS yn eu hanfon at ei aelodau. Ar y llaw arall, gallai arwain at rai aelodau yn penderfynu newid o fod yn Aelodau i fod yn sefydliadau wedi'u cofrestru yn unig, gan leihau incwm CWVYS o ffynonellau eraill?

5 AMCAN 2: CYNORTHWYO SEFYDLIADAU GWIRFODDOL SY'N CYNIG GWAITH IEUENCTID I YMGYSYLLTU YN FWY STRATEGOL, A CHANIATÁU IDDYNT GAEL GWRANDAWIAD I'W LLAIS MEWN PENDERFYNIADAU YNGHYLCH POLISI

Y ddau ymadrodd allweddol y canolbwyntiwyd arnynt er mwyn gwerthuso'r Amcan hwn oedd **ymgysylltu mewn ffordd fwy strategol a gwrandawriad i lais.**

5.1 Llais Cenedlaethol

Nid yw'n ofynnol i bob darpar aelod ddod yn Aelod o CWVYS er mwyn darparu llais dilys sy'n cynrychioli safbwyntiau'r sector. Mae hyn yn deillio o fod â'r profiad a'r arbenigedd o fewn strwythurau CWVYS i gyflawni hyn: y Swyddogion, yr Ymddiriedolwyr, grŵp yr Is-lywyddion, mecanweithiau i gasglu safbwyntiau'r holl sefydliadau sy'n Aelodau, amrywiaeth ymhlith yr Aelodau i alluogi i nifer helaeth o safbwyntiau gael eu hystyried a'r gallu i ganfod tir cyffredin.

Ystyrir fod CWVYS yn darparu llais cenedlaethol ar gyfer y sector ynghylch amrywiaeth o faterion strategol a pholisi, a hyd yn oed safbwyntiau rhyngwladol trwy gyfranogi mewn cyrff megis Grŵp y Pum Gwlad a grwpiau'r Undeb Ewropeaidd. Mae profiad sylweddol hefyd yn bodoli o fewn CWVYS (Swyddogion ac Aelodau) o roi cyflwyniadau i bwyllgorau ac ymchwiliadau ar lefel uchel. Dywedodd saith cyfweilai sy'n cyfranogi yng ngwaith CWVYS ers tro byd fod CWVYS wedi "cryfhau" yn y cyd-destun hwn, yn enwedig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedodd un bod gan CWVYS "awydd aruthrol i sicrhau na chaiff y Sector Gwirfoddol ei anghofio." Cafwyd enghreifftiau o gyfranogiad mewn pethau megis y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid, cofrestru Gweithwyr Ieuencid, y Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuencid, a'r Ymchwiliad i Waith Ieuencid. Dywedodd un bod cynnydd wedi digwydd ond byddent yn hoffi gweld y rôl hon yn cael ei chyflawni yn gryfach fyth.

Mae dau gwestiwn a godwyd gan gyfweleion o Awdurdodau Lleol yn darparu gwrthbwynt i ystyried hyn. Holai un a oedd CWVYS yn cynrychioli safbwyntiau ei Aelodau neu a oedd yn cael ei lywio gan ei gyfeiriadau strategol. Dywedodd un arall "Wn i ddim faint mae'n cynrychioli'r sefydliadau mwy yn hytrach na'r rhai bychan: dyna yw fy nghwestiwn i."

5.2 Prosesau Ymgynghori CWVYS

Un o'r buddion allweddol a nodwyd gan Aelodau yw'r wybodaeth dda ynghylch datblygiadau polisi a strategol a ddarperir ar adegau priodol gan CWVYS. Mae hyn yn cychwyn trwy sefydlu **cysylltiadau da â chyrrff eraill i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyd-destun cyffredinol datblygiadau a chyfleoedd penodol** ar gyfer y sector gwaith ieuencid gwirfoddol - nid adain Ymgysylltu Ieuencid Llywodraeth Cymru yn unig, ond hefyd trwy fod yn aelod o gyrff eraill megis y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid neu gyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae'n ymddangos fod gan CWVYS bresenoldeb da ar gyrff o'r fath.

Rhoddyd enghreifftiau o'r Ymchwiliad i Waith Ieuencid gan ddweud fod y Prif Weithiwr wedi "gweithio'n galed" i gasglu safbwyntiau Aelodau ac anfon dogfennau atynt ymlaen llaw i gael sylwadau cyn cyflwyno ymateb. Ystyrir hefyd fod y Cyfarfodydd Rhanbarthol yn fforwm defnyddiol i gael safbwyntiau Aelodau.

Roedd cyfweleion o **sefydliadau llai yn credu yn bendant fod y prosesau a ddefnyddir i geisio eu safbwyntiau yn caniatáu iddynt gael gwrandawriad i'w llais.** Dywedodd un "Oni bai am CWVYS, ni

fyddwn i wedi cael fy nghynnwys yn yr Ymchwiliad i Waith Ieuenctid.” Dywedodd un arall: “Pan fyddwn ni'n ymateb i ymgynghoriadau, byddwn yn teimlo'n rhan o bethau. Bach neu fawr, mae gennym ni oll yr un farn am wasanaeth gwirfoddol a llais pobl ifanc. Mae arnom ni angen un llais.” Ac un arall: “Mae wedi rhoi llais i ni. Rydym ni yn yr un ystafell â sefydliadau mwy. Byddwn ni'n rhannu ein safbwyntiau â CWVYS ac yn gadael iddynt hwy gyfuno'r cyfan.” Dywedodd cynrychiolydd o sefydliad gwirfoddol cenedlaethol: “Mae'n debyg y byddai sefydliadau llai yn ei chael hi'n anoddach cael dolen gswllt at Lywodraeth Cymru neu lwyddo i feddwl yn strategol ar eu pen eu hunain.”

Er bod rhai o'r **sefydliadau Cenedlaethol** mwy **wedi dweud efallai y gallent gyflwyno eu hymatebion unigol eu hunain** ynghylch rhai materion polisi/strategol, roeddent **serch hynny yn gweld gwerth mewn bod yn rhan o lais cyfunol**. Dywedodd cynrychiolydd un ohonynt: “Ni fyddaf i'n cyfrannu'n uniongyrchol bob tro oherwydd diffyg amser, ond rwy'n gwybod y gallaf i anfon pwyntiau bwled at CWVYS a gweld y rheiny'n cael eu cyfleu.” Roedd amser yn ffactor i dri chyfwelai: “Nid oes gan sefydliadau ddigon o amser i lunio eu hymatebion eu hunain.”

Dywedodd tri chyfwelai hefyd eu bod wedi cael gwahoddiad gan CWVYS i fynd i gyfarfodydd fel **cynrychiolwyr CWVYS**, yn enwedig yn achos pynciau roedd ganddynt arbenigedd yn eu cylch.

Roedd un llais yn anghydsynio ymhlith Aelodau CWVYS, a gofynnodd: “A all CWVYS honni mai dyma yw safbwynt ein holl strwythurau Cenedlaethol a lleol a'n bod yn cefnogi'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn llawn?”

5.3 A Allai/Ddylai Llywodraeth Cymru Gynnal ei Hymgyngoriadau Ei Hun heb CWVYS?

A allai Llywodraeth Cymru gynnal ei hymgyngoriadau ei hun heb CWVYS? Ac a ddylai wneud hynny?

Cafodd y Gwerthuswr restr o sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol gan Lywodraeth Cymru yr oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ohonynt; rhestr o'r sawl a wnaeth fynychu gweithdai ymgynghorol ynghylch y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn 2016; a chafodd weld rhestr o Aelodau CWVYS. Dengys y tabl isod y canlynol:

- Roedd 22/28 o'r sefydliadau a gyfranogodd yn Aelodau o CWVYS (13+9);
- Roedd 36/44 o'r unigolion a gyfranogodd yn rhan o sefydliadau sy'n Aelodau o CWVYS (20+16).

Tabl 3: Ymgynghoreion y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

	Nifer y Sefydliadau	Nifer yr Unigolion
Rhestr LIC ac Aelodau CWVYS	13	20
Aelodau CWVYS yn Unig	9	16
Ddim yn Aelodau o CWVYS	6	8

Gall hyn amlygu un (neu nifer) o'r pwyntiau canlynol:

1. Mae CWVYS yn dda am roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau ac annog sefydliadau sy'n Aelodau i fynychu, ar ôl creu awydd a hyder ymhlith pobl i gyfranogi, sy'n golygu fod CWVYS yn gwneud cyfraniad pwysig o ran sicrhau fod y digwyddiadau hyn yn llwyddiannus.
2. Mae gan sefydliadau sydd â'r amser, yr adnoddau a'r tueddfryd i fod yn aelodau o CWVYS yr amser, yr adnoddau a'r tueddfryd i gyfranogi mewn ymgynghoriadau, fel rhan o CWVYS neu fel arall.

3. Ychydig iawn o sefydliadau oddi allan i CWVYS sydd â'r amser, yr adnoddau neu'r tueddfryd i gyfranogi mewn ymgynghoriadau (neu i fod yn aelodau llawn o CWVYS).

Felly, yr ateb i'r cwestiwn ynghylch a **Allai Llywodraeth Cymru gynnal ei hymgyngoriadau ei hun heb CWVYS** yw “**efallai**” ond mae'n eithaf posibl fod effeithiolrwydd rhwydweithiau CWVYS o ran hyrwyddo'r digwyddiadau hyn wedi bod yn bwysig yn hyn o beth.

O ran y cwestiwn ynghylch a **ddylai** Llywodraeth Cymru gynnal ei hymgyngoriadau ei hun heb CWVYS, roedd yn amlwg o'r adborth o'r cyfweiliadau gydag Aelodau CWVYS eu bod yn **gwerthfawrogi'r llais cyfunol sydd ganddynt fel sector yn fawr**. Maent eisoes yn gallu cyflwyno ymatebion unigol, ond mae'n well ganddynt yr undod a'r cryfder a ddarperir gan eu llais cyfunol. Yn achos rhai o'r sefydliadau Cenedlaethol mwy, nid yw hyn yn senario “naill ai/neu”: os byddant yn dymuno cyflwyno eu hymatebion unigol eu hunain ynghylch pwnc y maent yn credu fod ganddynt arbenigedd penodol ynddo, byddant yn gwneud hynny, ond byddant yn dal yn dymuno gweld CWVYS yn cyflwyno ymateb ynghyd â hynny i gynrychioli'r sector. Ac er bod CWVYS yn ceisio canfod tir cyffredin ar gyfer llais y sector, mae'n golygu hefyd nad yw'n llesteirio'r safbwyntiau mwy arbenigol a gynigir yn uniongyrchol gan sefydliadau sy'n Aelodau ohono.

Efallai fod angen i CWVYS allu cynnig gwell eglurhad ynghylch y prosesau ymgynghori a ddefnyddir ganddo i greu'r llais cyfunol hwnnw a sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth fod undod y tu cefn iddynt. Unwaith eto, fel mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, mae'r pwyslais ar dryloywder.

5.4 Crynodeb: A yw CWVYS yn Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Gwaith Ieuenctid i Ymgysylltu yn Fwy Strategol a Chaniatáu Iddynt Gael Gwrandawriad i'w Llais?

Rwy'n credu fod CWVYS yn cyflawni'r Amcan hwn i'w Aelodau.

- Mae'r Aelodau yn gwerthfawrogi'r llais Cenedlaethol cyfunol.
- Mae aelodau yn credu fod y broses ymgynghori a ddefnyddir gan CWVYS yn caniatáu iddynt gyfrannu. Mae'n golygu mwy na chyfrannu at waith ymgynghori: mae'n ymwneud â hyder, undod a'r “diogelwch mewn niferoedd” a ddarperir gan y llais cyfunol.
- Cred sefydliadau llai na fyddent yn cael gwrandawriad o bosibl heb fod yn rhan o'r llais cyfunol.
- Efallai bydd sefydliadau unigol yn dal yn dymuno mynegi eu safbwyntiau eu hunain ble maent yn credu fod ganddynt arbenigedd penodol ond serch hynny yn dymuno i CWVYS ddarparu llais ar gyfer y Sector ynghyd â'u safbwyntiau eu hunain.
- Pan mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriadau, mae'n eithaf tebygol fod Aelodau CWVYS wedi bod yn fwy tebygol o gyfranogi.
- Mae angen i CWVYS wella ei ddull o ddisgrifio'r prosesau a ddefnyddir ganddo i gyflawni'r llais cyfunol Cenedlaethol hwnnw.

6 AMCAN 3: CYNORTHWYO SEFYDLIADAU GWIRFODDOL SY'N CYNIG DARPARIAETH GWAITH IEUENCTID I GYDWEITHIO'N FWY EFFEITHIOL AG AWDURDODAU LLEOL.

Yr ymadrodd allweddol y canolbwyntiwyd arno i werthuso'r Amcan hwn oedd **cydweithio'n fwy effeithiol ag Awdurdodau Lleol**.

6.1 Cydlynu Strategol Cenedlaethol

Ar y lefel Genedlaethol, **bydd Prif Weithredwr a Chadeirydd CWVYS yn cysylltu â Chadeirydd Grŵp y Prif Swyddogion Ieuencid (PYOG) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)**. Hyd at ddwy flynedd yn ôl (a chyn sefydlu'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid maent oll wedi'u cynrychioli arno), roedd mecanwaith mwy ffurfiol yn ei le i wneud hyn a arweiniodd at lunio *Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion* (2013).

Roedd safbwyntiau cadarnhaol ynghylch y gwaith cysylltu presennol ar y lefel strategol hon: "cyfarfodydd cymharol reolaidd", "perthnasoedd da", "negeseuon cyson", "ceision unioni agendâu", "y ddwy ochr yn fodlon gan amlaf"; ond roedd y sylwadau mwy petrusgar yn cynnwys "cyfarfodydd lled-reolaidd", "nid yw wedi datblygu mewn gwirionedd", "heb ganfod y dull iawn o weithio", "mae angen i'r ddwy ochr weithio ychydig yn galetach".

Roedd rhywfaint o gefnogaeth gan nifer o Aelodau CWVYS i **fodel cenedlaethol ffurfiol newydd ar gyfer cydlynu strategol** yn cynnwys CWVYS, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru, a allai bennu gweledigaeth ac amcanion ar y cyd ar gyfer Gwaith Ieuencid. Cafwyd y datganiad canlynol gan y Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Gymraeg yn y Senedd ar 4 Ebrill 2017:

"Gan gydnabod yr angen am arweinyddiaeth strategol glir, rwy'n sefydlu bwrdd cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau cymorth ieuencid wedi'i gadeirio gan gadeirydd annibynnol. Rydym ni oll yn gwybod fod cymorth i bobl ifanc yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol pan fydd yn rhan o rwydwaith ehangach. Dyna pam rwy'n dymuno i'r bwrdd hwn ganolbwyntio ar y sbectwm cyfan o wasanaethau cymorth ieuencid, nid Gwaith Ieuencid yn unig. Gwaith y bwrdd fydd darparu her adeiladol a chraffu ar bolisiau a chynigion Llywodraeth Cymru ynghylch gwasanaethau cymorth ieuencid. Trwy ymgynghori a chydweithio â'r sectorau statudol a gwirfoddol, rwy'n dymuno i'r bwrdd gynghori ynghylch yr adolygiad o 'Ymestyn Hawliau' a gweithredu'r argymhellion a wnaed yn sgil ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Gwaith Ieuencid."

Efallai bydd **bwrdd cenedlaethol y gwasanaethau cymorth ieuencid** yn mynd i'r afael â hynny; ni chynigir rhagor o sylwadau am hyn yn yr adroddiad.

6.2 Effaith yn achos Awdurdodau Lleol Unigol

Yn sicr, cafwyd enghreifftiau gan gyfweleion o CWVYS yn gweithredu fel '**brocer**' i gynorthwyo i sefydlu dolen gyswllt rhwng Awdurdodau Lleol a sefydliadau gwaith ieuencid gwirfoddol unigol. Yn achos o leiaf tri sefydliad sy'n Aelodau, roedd CWVYS wedi gwneud cyfraniad allweddol at eu cynorthwyo i ehangu i ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill a datblygu perthnasoedd gwaith tymor hir. Cyfeiriwyd at Gaerdydd yn benodol fel ardal Awdurdod Lleol ble'r oedd CWVYS yn gallu helpu'r sector a'r Awdurdod Lleol i ailddiffinio eu hymagwedd at ddarpariaeth gwaith ieuencid.

Fodd bynnag, ar y cyfan, mae hyn yn **anghyson**. Dywedodd Prif Weithredwr CWVYS ei fod yn ymdrin

â phob Amcan yn gyfartal, ond roedd hwn yn faes oedd yn “newid yn gyflym iawn”, ac felly roedd yn “anodd ei ddeall”, yn enwedig pan fydd y rôl brocer yn dibynnu ar ddatblygu perthnasoedd personol da. Daeth hyn i'r amlwg yn y cyfweiliadau hefyd wrth iddynt drafod y canlynol:

- **Mae pob Awdurdod Lleol yn wahanol:** dywedodd pum cyfweilai fod rhai Awdurdodau Lleol yn gweithio'n well gyda'r sector ieuencid gwirfoddol nag eraill; dywedodd pedwar “nad oedd” yr Awdurdodau Lleol yr oedd ganddynt dan sylw “yn gwerthfawrogi” neu roeddent yn “edrych i lawr” ar y sector gwirfoddol; Aeth un cyfweilai mor bell a dweud: “Nid yw Awdurdodau Lleol yn anrhydeddu lefel eu hymrwymiad i'r Sector Gwirfoddol.”
- Roedd llawer o gyfweleion yn cydnabod fod **gwaith ieuencid o fewn Awdurdodau Lleol wedi newid:** dywedodd chwe chyfweilai fod gwaith ieuencid wedi cael ei effeithio'n anghymesur gan effaith toriadau, yn enwedig o gofio nad yw'r Grant Cymorth Refeniw a roddir i Awdurdodau Lleol i gynnal gwaith ieuencid wedi'i ddiogelu, ac roeddent yn cydymdeimlo â'r pwysau sydd ar y sector statudol; ceir llai o Brif Swyddogion ieuencid penodol bellach nag yn y gorffennol; mae gan lawer o swyddogion sy'n gyfrifol am waith ieuencid sawl briff (“nid yw hynny'n rhywbeth drwg o reidrwydd” yn ôl un cyfweilai, ond roedd yn golygu hefyd nad oedd gan lawer ohonynt gefndir ym maes gwaith ieuencid); mae llawer o Awdurdodau Lleol yn canolbwyntio ar ddarpariaeth wedi'i dargedu yn hytrach nag arlwy a gynigir i bawb; effaith hyn oedd y gallai Prif Swyddogion ieuencid ganolbwyntio ar eu darpariaeth fewnol eu hunain, ac weithiau, ni fydd ganddynt yr amser na'r gallu i gysylltu'n fwy effeithiol â'u sector gwirfoddol. Dywedodd un cyfweilai mai'r rhwystr pennaf rhag cydweithio'n fwy effeithiol ag Awdurdodau Lleol “yw'r rhwystr ariannol”; dywedodd un arall ei fod yn ymddangos fod “rôl y Prif Swyddog ieuencid wedi'i israddio.”

Mae'r uchod yn cynrychioli dau fath o rwystr rhag adeiladu perthnasoedd agosach: mae'r cyntaf yn ymwneud ag ymddygiad ac agweddau, pan na ystyrir fod Awdurdod Lleol yn gweld gwerth yn y sector ieuencid gwirfoddol (rhaid pwysleisio nad yw hyn yn golygu *pob* Awdurdod Lleol); ac mae'r ail yn systemig, yn gysylltiedig ag anawsterau mewn systemau a phrosesau a gallu.

Fodd bynnag, **nid oedd** rhai Aelodau a gyfweilwyd **yn gweld angen am gymorth gan CWVYS** i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gydag Awdurdodau Lleol. Dywedodd cynrychiolydd un sefydliad Cenedlaethol: “Ni fyddwn i'n ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol trwy law CWVYS. Byddwn i'n gwneud hynny'n uniongyrchol fy hun. Rwy'n ystyried fod rôl CWVYS yn fwy fel rôl ymgynghorol ar y lefel cenedlaethol gydag Awdurdodau Lleol” a dywedodd cynrychiolydd sefydliad llai: “Nid wyf i wedi ystyried CWVYS fel hynny [h.y. eu cynorthwyo ag Awdurdodau Lleol]. Mae gennym ni berthynas dda â'n Hawdurdod Lleol.”

Roedd y **cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol** a gyfweilwyd yn credu yn yr un modd fod ganddynt ddealltwriaeth a pherthnasoedd rhesymol â darparwyr gwasanaethau ieuencid gwirfoddol lleol. Nid oeddent yn ystyried fod angen i CWVYS weithredu fel brocer yn y cyd-destun hwn. Efallai fod hyn yn rheswm pam na fyddant yn aml iawn yn derbyn gwahoddiadau byddant yn eu cael gan CWVYS i fynychu Cyfarfodydd Rhanbarthol CWVYS. Yr oedd un mor ansicr ynghylch rôl CWVYS yn lleol, roedd yn credu mai un o swyddogaethau posibl CWVYS oedd dosbarthu cyllid i'r sector gwaith ieuencid gwirfoddol. Mae angen i CWVYS sicrhau fod awdurdodau lleol yn deall yn glir beth yn union yw ei swyddogaeth.

6.3 Cynllunio Strategol a Mekanweithiau Cydlynu Lleol

Cafwyd sylwadau gan bum cyfwelai o blith yr Aelodau a thri chyfwelai o Awdurdodau Lleol ynghylch **Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc/Partneriaethau Pobl Ifanc (PPPI)**. Dywedodd rhai fod *Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru* (2000) yn ei gwneud hi'n ofynnol i CWVYS gael ei gynrychioli ar bob un o'r rhain, ond yn debyg i sylwadau a wnaed ynghylch perthnasoedd ag Awdurdodau Lleol yn gyffredinol, fe wnaethant ddweud fod cyfranogiad y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol a'r agwedd ato dan y PPPI wedi bod yn amrywiol: dywedodd un unigolyn "fe wnaeth Awdurdodau Lleol barhau i wneud fel y mynnent", a dywedodd un arall "roeddent [PPPI] yn grymuso ar y dechrau nes iddynt newid pan gyflwynwyd Teuluoedd yn Gyntaf."

Roedd cyflwyno **Cynlluniau Integredig Sengl** (2012) a **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** (dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*) yn golygu fod mecanweithiau cynllunio a chydlynu strategol rhyngasiantaethol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'u partneriaid wedi newid.

- Dywedodd dau gyfwelai o Awdurdodau Lleol eu bod wedi cynnal mecanweithiau cydlynu tebyg i'r PPPI ac/neu roedd ganddynt Swyddogion Cyfranogiad Ieuenctid oedd â chyfrifoldeb i gynnal perthnasoedd â'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol fel rhan o'u dyletswyddau.
- Roedd tri o'r cyfweleion o Awdurdodau Lleol yn canolbwyntio mwy ar eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol, a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol oedd yr unig gynrychiolydd o'r sector gwirfoddol. Cydnabyddid, fodd bynnag, fod gan lawer o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ffocws thematig (e.e. ar ieuchyd) yn hytrach na ffocws ar bobl ifanc.

Mae'n nodedig **cyn lleied y gwnaeth Aelodau CWVYS gyfeirio at Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yn ystod y Gwerthusiad. Nid yw hyn yn golygu nad oeddent yn ymwybodol o'r datblygiadau hyn, ond mae'n awgrymu nad yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn flaenllaw yn eu meddwl.

Mae'n ddiddorol iawn y byddai cynrychiolydd Cyngor Gwirfoddol Sirol a gyfrannodd, a oedd hefyd yn gynrychiolydd y sector gwirfoddol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol, yn croesawu perthynas gryfach â CWVYS, ac ystyriai fod gan hynny "botensial enfawr." Roedd cyswllt yr unigolyn hwn â CWVYS yn y gorffennol yn golygu ei fod yn deall ac yn gwerthfawrogi arbenigedd CWVYS a'i ffocws ar bobl ifanc a materion gwaith ieuenctid. Credai y byddai perthynas gryfach yn llesol i'r ddwy ochr: mae gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol wybodaeth leol a mynediad at rwydweithiau lleol, ac mae gan CWVYS wybodaeth arbenigol. Mae gan CWVYS gysylltiadau â CGGC yn barod, ac mae'r naill yn ystyried fod gan y llall gyfraniad cyflenwol i'w wneud.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod CWVYS yn fwy diweddar wedi bod yn datblygu perthnasoedd â **Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd**, ac rwy'n deall fod cysylltiad eisoes wedi'i sefydlu â Chomisiynydd Heddlu De Cymru, ac mae ymateb yn digwydd i gysylltiadau â Chomisiynwyr Heddluoedd Gwent a Dyfed Powys, sy'n golygu fod cynnydd yn digwydd yn achos tri o'r pedwar ar hyn o bryd. Dyddiau cynnar iawn yw hi o ran y potensial a'r buddion a allai ddeillio o ddatblygu rhwydweithiau â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

6.4 Crynodeb: A yw CWVYS wedi sicrhau Effaith o ran Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith Ieuenctid i Gydweithio'n Fwy Effeithiol ag Awdurdodau Lleol?

Mae effaith CWVYS o ran cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid i gydweithio'n fwy effeithiol ag Awdurdodau Lleol yn anghyson.

Ceir rhywfaint o gysylltu/cydlynu ar y lefel cenedlaethol sydd ddim mor drylwyr ag y gallai fod (neu nid yw fel mae CWVYS yn dymuno iddo fod), ond efallai caiff hyn ei ddatrys gan fwrdd cenedlaethol newydd y gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae tystiolaeth fod CWVYS yn gwneud cyfraniad effeithiol fel brocer rhwng rhai Aelodau a rhai Awdurdodau Lleol, ond ar y cyfan, nid yw hyn yn gryf oherwydd: mae rhai Awdurdodau Lleol yn llai derbyngar; ceir materion systemig y mae rhai Awdurdodau Lleol eu hunain yn eu hwynebu sy'n ei gwneud hi'n anoddach iddynt ryngweithio; ac nid yw rhai Aelodau na llawer o Awdurdodau Lleol yn ystyried ei fod yn ofynnol i CWVYS gyfranogi yn hyn (e.e. ble mae cysylltiadau lleol rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol eisoes yn gryf).

Efallai fod lle i CWVYS ddatblygu perthnasoedd gwaith cryfach gyda chynrychiolwyr sectorau gwirfoddol lleol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gallai'r cysylltiad hwn â rhwydweithiau lleol gynorthwyo i wella'r dull o nodi darpar Aelodau newydd a chynorthwyo i gryfhau presenoldeb CWVYS mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol ble mae'n ymylol yn y meddylfryd presennol, ac ychwanegu at wybodaeth leol CWVYS hefyd. Nid fynegwyd hyn trwy gyfrwng y broses cyfweiliadau, felly ni ellir gwytbod i ba raddau mae CWVYS wedi bod yn ceisio gwneud hyn yn barod.

Hefyd, gallai'r Amcan fod yn well pe cai ei ailysgrifennu i symud oddi wrth "Awdurdodau Lleol" yn unig a chwmpasu mecanweithiau cydlynu lleol eraill yn enwedig Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu.

7 AMCAN 4: CYNORTHWYO SEFYDLIADAU GWIRFODDOL I DDANGOS EFFAITH EU HYMYRIADAU GWAITH IEUENCTID

Yr ymadrodd allweddol y canolbwyntiwyd arno i werthuso'r Amcan hwn oedd **dangos yr effaith**.

7.1 Diffinio "Effaith"

Mae canolbwyntio ar "effaith" a "chanlyniadau" yn lle "mewnbynau" ac "allbynau" yn pennu **problem benodol ar gyfer gwaith ieuencid** (yn y sectorau statudol a gwirfoddol). Yn achos addysg, er enghraifft, ceir dangosyddion 'caled' megis canlyniadau arholiadau, ond yn achos gwaith ieuencid, ceir llawer rhagor o ddangosyddion 'meddal' sy'n anoddach i'w diffinio, yn enwedig yn achos darpariaeth sy'n agored i bawb. Pum Colofn Gwaith Ieuencid yng Nghymru (*Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (2013)*) yw: Addysgol, Mynegiannol, Cyfranogol, Cynhwysol a Grymusol, ac nid yw'r mwyafrif o'r rhain yn agored i ddangosyddion caled amlwg. Mae gofyn i "gwsmeriaid" y gwasanaeth am eu safbwyntiau hefyd yn broblemus os nad ydynt yn talu amdano: bydd pobl yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol ynghylch gwasanaeth maent yn ei gael am ddim.

Dyweddodd saith cyfwelai fod dangos effaith yn bwnc "dyrys". Fe wnaeth un hyd yn oed ddweud fod "effaith a chanlyniadau yn ffon i'w defnyddio i daro pobl" ac ychwanegodd, "Nid oes gan CWVYS unrhyw ddewis ond sefydlu naratif" a chyfeiriodd at baradocs fod rhai dulliau megis priodoli gwerth arbedion ariannol i effaith gwaith ieuencid yn annilys yn fethodolegol, felly "derbyniwch hynny, defnyddiwch hynny am y tro." Dywedodd un unigolyn nad oedd pwyslais ar ganlyniadau "yn beth drwg o reidrwydd, ond gall fod yn ymarfer ticio blychau" a dywedodd dau mai'r effaith yn y tymor hir oedd yn bwysicaf, ond roedd yn anodd ei fesur. Dywedodd un arall "Rydym ni'n gwybod fod gwaith ieuencid yn achub bywydau" a dywedodd un arall "Rydym ni'n gwybod fod **cyfraniadau da yn arwain at ganlyniadau da**, hyd yn oed os nad ydym ni'n gwybod pryd."

Nid yw hynny'n golygu nad yw effaith a chanlyniadau yn bwysig: maent yn bwysig, ond mae hyn yn pennu cyd-destun i'r Amcan hwn.

7.2 Rôl Grŵp Datblygu'r Gweithlu

Mae gan CWVYS **Grŵp Datblygu'r Gweithlu** sy'n bodoli ers 2002, ac mae'n un o is-grwpiau'r Pwyllgor Gwaith. Cynhelir cyfarfodydd deirgwaith y flwyddyn. Mae'n cynnwys cymysgedd o ymarferwyr a rheolwyr o wahanol fathau o sefydliadau. Nodai Adroddiad 2015-2016 (Gorffennaf 2016) gan Gadeirydd Grŵp Datblygu'r Gweithlu yn *Adroddiad Blynyddol 2016 CWVYS* fod yr eitemau a drafodwyd y flwyddyn honno yn cynnwys:

- Cyflwyniadau gan sefydliadau sy'n Aelodau o CWVYS;
- Diweddariadau ynghylch hyfforddiant a ddarperid a hyfforddiant am ddim a ddarperid trwy'r bartneriaeth â CAG Coleg Cymunedol YMCA Cymru;
- Gwybodaeth am gyllid Erasmus+, rhaglenni SALTO-Youth a chyfleoedd am hyfforddiant ychwanegol trwy Erasmus+.
- Trafodaethau ynghylch newidiadau i'r broses o gofrestru gofal plant yng Nghymru (AGCCC) a'r oblygiadau posibl ar gyfer sefydliadau gwaith ieuencid;
- Cyflwyniadau a thrafodaethau ynghylch cofrestru Gweithwyr Ieuencid trwy Gyngor y Gweithlu Addysg.

Mae enghreifftiau o waith arall yn cynnwys llunio a darparu Marc Ansawdd CWVYS, cyfrannu at

ddatblygiad y Marc Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid, a chynrychiolaeth ar Bwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru.

Mae llawer o'r ffocws uchod felly yn dilyn y meddylfryd "cyfraniadau da yn arwain at ganlyniadau da".

Dywedodd tri chyfwelai eu bod wedi cael cyrsiau hyfforddiant yn rhad ac am ddim trwy gytundeb CWVYS â **Dysgu Oedolion Cymru (CAG Coleg Cymunedol YMCA Cymru)**, a dywedodd un o gynrychiolwyr y sefydliadau Cenedlaethol fod 100 o'u harweinyddion, gwirfoddolwyr a phobl ifanc yn astudio trwy law'r Coleg bob blwyddyn, ac roedd hynny'n werth oddeutu 25-30 mil o bunnoedd iddynt. Gofynnodd y Gwerthuswr i CWVYS a oedd ffigurau ar gael ynghylch y nifer o bobl o sefydliadau sy'n Aelodau sydd wedi cael yr hyfforddiant hwn: gofynnodd CWVYS i'r Coleg am hyn ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd wedi cael y data. Rwy'n deall y gall Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol hefyd gael hyfforddiant am ddim gan Dysgu Oedolion Cymru. Gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru wybod rhagor am: broffil y bobl sy'n elwa o'r hyfforddiant hwn; pa un ai a ydynt o'r sector statudol neu'r sector gwirfoddol, ac os ydynt o'r sector gwirfoddol, y nifer sy'n rhan o sefydliadau sy'n Aelodau o CWVYS a'r nifer sy'n rhan o sefydliadau sydd ddim yn aelodau o CWVYS.

7.3 Marc Ansawdd

Rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2015, datblygwyd **Marc Ansawdd CWVYS ynghylch Datblygu'r Gweithlu**, ac fe wnaeth saith o sefydliadau CWVYS gyflawni hyn (ASH Cymru, Canolfan Cwmbrân ar gyfer Pobl Ifanc; Lluoedd Wrth Gefn a Chymdeithas Cadlanciau Dyfed a Morgannwg; y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig; Girlguiding Cymru).

Yn 2015, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru**². Mae'n cynnwys tri lefel (Efydd, Arian ac Aur) ac mae bob lefel yn cynnwys pedwar safon ansawdd. Mae'r cyflwyniad i'r Marc Ansawdd yn datgan ei fod:

"...wedi cael ei ddatblygu â mewnbwn gan amrywiaeth helaeth o gynrychiolwyr o sefydliadau gwirfoddol a statudol sy'n cefnogi gwaith ieuenctid neu'n ei ddarparu'n uniongyrchol. Mae'n defnyddio elfennau o Farc Ansawdd yr Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid yn Lloegr (NYA) ar gyfer gwasanaethau pobl ifanc, ac mae'n adeiladu ar y marciau ansawdd a ddatblygwyd gan Gyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS) a Phwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS) i sicrhau ei fod yn cydfynd â chyd-destun gwaith ieuenctid yng Nghymru ac y gellir ei ddefnyddio gan amrywiaeth helaeth o sefydliadau.

Fe wnaeth CWVYS ddatblygu a gweithredu Marc Ansawdd ar gyfer Datblygu'r Gweithlu y mae sefydliadau gwirfoddol yn ei ddefnyddio i amlygu ansawdd eu trefniadau datblygiad proffesiynol. Mae'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru yn ategu Marc Ansawdd Datblygu'r Gweithlu CWVYS, ac mae'n cydnabod yr amser a'r ymdrech sylweddol sy'n ofynnol i ddarparu portffolio o dystiolaeth a chyflawni Marc Ansawdd CWVYS. Felly, ystyrir fod unrhyw sefydliad sydd wedi llwyddo i ennill Marc Ansawdd CWVYS (yn ystod y tair blynedd diwethaf) wedi cyflawni gradd 'arfer da' ar gyfer safon Datblygu'r Gweithlu yn y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, Lefel Arian."

Mae gwefan CWVYS yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ei Farc Ansawdd ei hun, ynghyd â dolen at y

² Llywodraeth Cymru (2015). *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Cyflwyniad a Chanllawiau*.

Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru, ac mae'n datgan hefyd "nid yw Marc Ansawdd CWVYS bellach ar gael." Mae sawl un o Aelodau CWVYS wedi cyfrannu at gyflwyno'r *Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru*, a gychwynnodd yn 2016, a Chanolfan Cwmbrân ar gyfer Pobl Ifanc oedd y cyntaf i ennill y Marc Ansawdd Arian. Byddai ennill y Marc Ansawdd yn ategu'r dull "cyfraniadau da yn arwain at ganlyniadau da". Yn gyffredinol, ychydig o ymgeiswyr sydd wedi cael eu hasesu am y Marc Ansawdd hyd yn hyn (ond mae'n dal yn ddyddiau cynnar).

7.4 Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuencid

Mae hanes datblygu **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol** wedi adlewyrchu'r anawsterau wrth ddiffinio 'effaith'. Cyfeiriodd un cyfwelai at fenter flaenorol, y deallaf ei fod yn gysylltiedig ag *Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru* (2000), o'r enw *Dangos Llwyddiant*, a ddilynwyd gan ymdrech i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, oedd yn gysylltiedig â'r *Siarter ar gyfer Gwaith Ieuencid* (Mawrth 2016). Yna, rhoddwyd blaenoriaeth i'r ymchwiliad i Waith Ieuencid gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ail hanner 2016 (*Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Pa fath o wasanaeth ieuencid mae ar Gymru ei eisiau? Adroddiad yr ymchwiliad i Waith Ieuencid* (Rhagfyr 2016)). Nid oedd pedwar cyfwelai yn deall yn eglur beth oedd wedi digwydd i'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Efallai caiff Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ei gwblhau wrth adnewyddu *Ymestyn Hawliau* ac y gofynnir i'r bwrdd cenedlaethol ynghylch gwasanaethau cymorth ieuencid gynghori ynghylch yn, ond nid yw hynny'n eglur ar hyn o bryd.

Mae'r naratif uchod yn ceisio amlygu ymhellach yr anawsterau i CWVYS o ran effeithio ar yr Amcan hwn. Yn sicr, roedd aelodau CWVYS yn rhan o'r ymarferion ymgynghorol a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (gweler adran 5.3). Os caiff y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ei gwblhau a'i lansio'n llawn yn y dyfodol, efallai y gellir ei ddefnyddio i werthuso sut bydd CWVYS wedi'i ddefnyddio i'w gynorthwyo i gyflawni'r Amcan.

7.5 Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol Unigol i Ddangos Effaith

Mae CWVYS yn ystyried fod ei rôl yn **addysgol** o ran helpu Aelodau i ddangos effaith yn hytrach na hyrwyddo unrhyw dull penodol:

- mae nifer o ddulliau eisoes yn bodoli;
- mae gan lawer o Aelodau eu dulliau eu hunain y maent yn eu ffafrio a/neu rai maent wedi'u datblygu'n dda;
- yn aml iawn (yn achos sefydliadau llai yn benodol), caiff effaith a chanlyniadau eu pennu gan gyrrff ariannu a bydd rhaid i'r sefydliad gadw at y gofynion hynny;
- mae rhai sefydliadau mwy, sy'n fwy annibynnol o safbwynt cyllid, yn fwy annibynnol hefyd o ran eu dull o fynd ati i ddangos canlyniadau ac effaith;
- Siaradodd nifer o Aelodau CWVYS am werth rhannu arferion da a'r astudiaethau achos a ddarperid trwy gyfleoedd rhwydweithio CWVYS (cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a'r cyfarfodydd Rhanbarthol; y CCB a Grŵp Datblygu'r Gweithlu; Cylchlythyrau CWVYS; y defnydd o gyfryngau cymdeithasol).

Dywedodd un sefydliad bychan ei fod wedi cyflogi ymgynghorydd i gynorthwyo i ddangos effaith, a dywedodd un arall, oedd â chefnidir ym maes marchnata, ei fod yn teimlo'n hyderus yn y dulliau y gallai

eu defnyddio i ddangos effaith.

Dylai dangos effaith fod â dau ddiben:

- Yr effaith ar fywydau pobl ifanc yw'r rheswm sylfaenol dros ddarparu gwasanaethau. Gall **dulliau sy'n helpu i ddangos i bobl ifanc beth yw'r daith maent wedi'i chyflawni** fod â gwerth aruthrol yn y cyd-destun iawn, o ran dangosyddion caled megis dyfarniadau achrededig ac o ran dangosyddion meddal. Nid ydynt yn berthnasol nac yn ddefnyddiol ym mhob cyd-destun. Maent yn ddulliau a ddefnyddir gyda'r bobl ifanc ac mae'r bobl ifanc eu hunain yn ystyried eu bod yn werthfawr.
- Yn aml, fodd bynnag, y rheswm craidd dros allu dangos effaith yw **argyhoeddi cyrff ariannu ynghylch gwerth y gwasanaeth** a ddarperir. Mae'n fwy na dim ond ffigurau; mae'n ymwneud â marchnata hefyd. Mae'n ymddangos fod pwyslais ar astudiaethau achos a rhannu arferion da i fynd i'r afael â hyn.

Mae gwefan CWVYS yn darparu nifer o gynghorion ynghylch dulliau da o fesur canlyniadau:

Adnabod eich nod. Mae angen i'r nod/targed fod yn glir, yn ddealladwy, yn realistig ond yn uchelgeisiol, diffiniedig ac yn gryno. Efallai mai chi sydd wedi ei adnabod neu efallai fod y cyllidydd/comisiynydd wedi'i ddiffinio.

Beth sydd angen digwydd i hyn gael ei gyflawni? Meddyliwch am y newid diwethaf sydd angen digwydd cyn i chi gyrraedd y nod – beth ydy'r rhag-amodau ar hyn o bryd?

Alinio gweithgareddau gyda chanlyniadau. Beth rydych chi yn ei wneud/angen gwneud i gyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u gosod? Pa rai o'ch gweithgareddau sydd yn datblygu'r gallu yma?

Beth arall sydd ei angen? Ydy'r dull yma yn gwneud synnwyr? Beth ydych chi'n tybio sydd yn ei le? Oes yna unrhyw beth rydych chi'n cymryd yn ganiataol? Pa weithgareddau eraill ydych chi'n eu cynnig?

Beth ydym ni eisiau fesur? Pa ganlyniadau a ddylid eu mesur? Mae angen iddynt fod yn fesuradwy (gennych chi), yn ddiffiniedig, yn rheoledig ac yn unigryw i'ch gwaith. Mesurwch y newid rydych chi'n ei wneud.

Mae'r wefan hefyd yn datgan y canlynol: Os hoffech wybod mwy yna edrychwch ar y rhestr o adnoddau isod neu cysylltwch â CWVYS. Rydym hefyd yn gallu darparu gweithdai sydd wedi'u teilwra ar gyfer eich sefydliad, ei brosiectau a'i gynlluniau". [Ni chrybwyllwyd unrhyw weithdai yn ystod y broses Gwerthuso, felly ni ellir gwybod a yw'r rhain wedi bod yn digwydd].

Dyma'r adnoddau a nodir:

- Dogfen CWVYS ei hun, "Tuag at ddull canlyniadau ac effaith ar gyfer y sector ieuenctid yng Nghymru" (2013).
- www.youngfoundation.org - Fframwaith o ganlyniadau ar gyfer pobl ifanc, Matrics o Ddulliau, sylfaen dystiolaeth.
- www.tsrc.ac.uk – Llyfrgell y gellir ei chwilio am astudiaethau ymchwil a deunyddiau prosiect sydd wedi'u cyhoeddi.

O gofio ei bod yn ymddangos mai'r sbardunau allweddol ar gyfer mesur effaith a chanlyniadau yw: (a) y technegau sydd eisoes yn eu lle gan sefydliadau (yn enwedig sefydliadau mwy); neu (b) gofynion cyrff ariannu, pa rôl ddylai CWWYS ei chyflawni? Mae'n debyg fod y ffocws ar hyn o bryd ar hyrwyddo astudiaethau achos a rhannu gwybodaeth ynghylch arferion da. Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried ynghyd â CWWYS a ddylai CWWYS:

- wneud gwaith mwy rhagweithiol o ran datblygu 'sylfaen gwybodaeth' o dechnegau a dulliau y gallai'r holl sector (ac nid Aelodau yn unig) eu defnyddio, ac yn wir, o fewn gwaith ieuencid yn ei gyfanrwydd, neu a ddylai fod yn darparu dolenni cyswllt at sefydliadau eraill sydd yn gwneud hyn?

bod â rôl a thargedau i hyrwyddo'r *Marc Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru*?

Yn ychwanegol, cafwyd sylwadau yn barod ynghylch cyfleoedd i CWWYS gryfhau ei gysylltiadau â Chynghorau Gwirfoddol Sirol ac mae rhannu arferion da yn faes arall y gallai CWWYS a Chynghorau Gwirfoddol Sirol gydweithio yn ei gylch.

7.6 Crynodeb: Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol i Ddangos Effaith eu Hymyriadau Gwaith Ieuencid

Mae CWWYS wedi hyrwyddo'r dull "cyfraniadau da yn arwain at ganlyniadau da" trwy ei Grŵp Datblygu'r Gweithlu a'r cyfleoedd mae'n eu darparu i rannu arferion da, yn enwedig o ran astudiaethau achos yng nghylchlythyrau CWWYS a thrwy gyfrwng ei gyfarfodydd rhwydweithio amrywiol. Dylai CWWYS ddarparu adroddiad blynyddol ynghylch y nifer o unigolion o sefydliadau sy'n aelodau sydd wedi elwa o'r hyfforddiant am ddim a ddarperir trwy law Dysgu Oedolion Cymru. Nid oedd y ffigurau hyn ar gael mewn pryd i'w cynnwys yn y Gwerthusiad hwn. Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno gwybod rhagor am broffil unigolion sy'n elwa o hyfforddiant gan Dysgu Oedolion Cymru: faint sydd o'r sector statudol, faint sydd o'r sector gwirfoddol, a faint o'r unigolion o'r sector gwirfoddol sy'n Aelodau o CWWYS (neu beidio).

Fel y dywedwyd eisoes, nid yw dangos dylanwad gwaith ieuencid yn faes syml. Mae diffyg Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol terfynol yn cyfyngu ar allu CWWYS i gynorthwyo'r sector gwaith ieuencid gwirfoddol mor llawn ag y gallai, felly mae'n cyfyngu ar y graddau y gellir gwerthuso CWWYS mewn cymhariaeth â'r Amcan hwn. Bydd angen i CWWYS fod â rôl wedi'i diffinio'n glir ynghylch y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol os caiff ei gwblhau yn y dyfodol, ar gyfer y sector cyfan, nid Aelodau CWWYS yn unig.

A yw CWWYS wedi cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol i ddangos dylanwad eu hymyriadau gwaith ieuencid? Cyfyngir ar rôl CWWYS gan y ffaith fod gan lawer o sefydliadau dechnegau a dulliau a ffafir ganddynt yn eu lle yn barod, neu gan y ffaith y cânt eu llywodraethu gan ofynion cyrff ariannu. Mae'n debyg fod rôl addysgol CWWYS yn canolbwyntio ar hyrwyddo astudiaethau achos a rhannu gwybodaeth ynghylch arferion da. Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried ynghyd â CWWYS a ddylai CWWYS:

- wneud gwaith mwy rhagweithiol o ran datblygu 'sylfaen gwybodaeth' o dechnegau a dulliau y gallai'r holl sector (ac nid Aelodau yn unig) eu defnyddio, ac yn wir, o fewn gwaith ieuencid yn ei gyfanrwydd, neu a ddylai fod yn darparu dolenni cyswllt at sefydliadau eraill sydd yn gwneud hyn?
- bod â rôl a thargedau i hyrwyddo'r *Marc Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuencid yng*

Nghymru?

Yn ychwanegol, cafwyd sylwadau yn barod ynghylch cyfleoedd i CWVYS gryfhau ei gysylltiadau â Chynghorau Gwirfoddol Sirol ac mae rhannu arferion da yn faes arall y gallai CWVYS a Chynghorau Gwirfoddol Sirol gydweithio yn ei gylch.

8 AMCAN 5: YMCHWILIO YNGHYLCH DOD YN SEFYDLIAD CYNALIADWY A DATBLYGU'N SEFYDLIAD O'R FATH.

Yn 2016-17, fe wnaeth CWVYS a Llywodraeth Cymru gytuno ar bumed Amcan ar gyfer CWVYS: Ymchwilio ynghylch dod yn sefydliad cynaliadwy a datblygu'n sefydliad o'r fath. O gofio fod hwn yn Amcan mwy newydd na'r gweddill, yr ymadroddion allweddol y canolbwyntiwyd arnynt i werthuso'r Amcan oedd **ymchwilio a datblygu**.

8.1 Ymchwilio a Datblygu

Mae'r Amcan hwn yn wahanol i Amcanion 1-4. Mae'r pedwar arall yn canolbwyntio ar y rôl a wneir gan CWVYS er budd y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yn ei gyfanrwydd, ac mae Amcan 5 yn ymwneud â'i gyllid.

Yn 2016-17, cynhaliodd CWVYS Ddiwrnod i Ffwrdd i Ymddiriedolwyr i ganolbwyntio ar ddod yn gynaliadwy, ac fe wnaeth hefyd gomisiynu cymorth allanol ynghylch hynny gan Susanne Rauprich a Mark Bandalli. Lluniwyd Cynllun Gweithredu, yn cwmpasu pynciau megis: llywodraethu; gweledigaeth a swyddogaeth; dichonoldeb; proffiliau gwasanaethau; ffurf gyfreithiol; a statws elusenol. Mae targedau ar gyfer 2017-2018 a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar roi'r Cynllun Gweithredu ar waith.

Fe waeth tri o gynrychiolwyr yr Aelodau a gyfwelwyd gydnabod "nad oes hawl ddwyfol" gan CWVYS i barhau i gael arian. Fodd bynnag, dywedodd dau gyfwelai ei bod hi'n anodd i gyrff cynrychiadol neu ymbarél ganfod ffynonellau o gyllid oherwydd mae effaith cyrff ymbarél/cynrychiadol yn anodd i gyrff ariannu ei ddeall o'i gymharu ag effaith darparwyr rheng flaen. Mae CWVYS hefyd wedi ymrwymo ers tro i beidio cystadlu â'i *Aelodau* am arian (serch hynny, ni chrybwyllir cystadlu yn erbyn y sawl sydd ddim yn Aelodau). Hefyd, mae rhai o'r cyrff ariannu mwy hefyd dan bwysau, ac efallai y byddant yn negyddol ynghylch darparu cyllid i lenwi bylchau a adewir yn sgil y Llywodraeth yn tynnu arian yn ôl. Er bod CWVYS yn cynyddu'r ffoedd aelodaeth ac yn ceisio cynyddu'r gyfran o'i incwm a gaiff gan yr Aelodau, cydnabyddid fod yr Aelodau eu hunain dan bwysau yn ariannol a dywedodd un cyfwelai o Awdurdod Lleol fod gorfod chwilio am incwm ychwanegol gan yr Aelodau "yn cyfleu'r neges nad yw Llywodraeth Cymru yn gweld gwerth ynddynt."

Dywedodd llawer o'r cyfweleion nad oeddent yn credu y gallent fynegi barn ynghylch pa un ai a yw Llywodraeth Cymru yn cael gwerth am arian yn sgil y £105,000 mae'n ei roi i CWVYS. Dywedodd oddeutu un rhan o dair eu bod yn credu fod CWVYS "yn gwneud gwaith da iawn â'r adnoddau sydd ganddo, a dywedodd tri yn benodol fod CWVYS yn darparu "llawer iawn o werth am arian." Ystyrir fod staffio mor dynn ag y gallai fod.

Dywedodd un unigolyn yn blwmp ac yn blaen: "Heb Grant a heb unrhyw gyllid arall, mae'n anodd gweld sut gallai CWVYS oroesi, hyd yn oed pe bai aelodau yn cynyddu eu ffoedd aelodaeth", ond dywedodd yr un unigolyn yn ddiweddarach yn y cyfweiliad y "byddai CWVYS yn parhau ond nid ar yr un ffurf."

8.2 Crynodeb: Ymchwilio ynghylch Dod yn Sefydliad Cynaliadwy a Datblygu yn Sefydliad o'r Fath

Pennwyd yr Amcan hwn am y tro cyntaf ar gyfer 2016-2017. Mae CWVYS wedi gwneud cynnydd ynghylch yr Amcan hwn trwy ddatblygu Cynllun Gweithredu. Mae hyn yn mynd i'r afael ag elfen "ymchwilio" yr Amcan hwn.

9 BETH FYDDAI POBL YN GWELD EI GOLLI PE NAI BAI CWVYS YN BODOLI?

Mae'n hysbys fod CWVYS wedi cael gwybod gan Lywodraeth Cymru yn Hydref 2016 y byddai ei Grant yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017, a chafodd y penderfyniad ei wyrdroi ar gyfer 2017-18. Roedd y dilyniant hwn o ddiwyddiadau yn golygu y gallai'r Gwerthuswr holi'r cyfweleion: *Beth fyddai pobl yn gweld ei gollu pe na bai CWVYS yn bodoli?*

9.1 Ym Mha Ffyrdd Fyddai Pobl yn Gweld Colli CWVYS?

Roedd nifer o gyfweleion yn **siomedig ynghylch yr awgrym na allai CWVYS barhau i fodoli i'w cynorthwyo:**

"Rwy'n gwybod fod Llywodraeth Cymru yn wynebu cyfnod anodd ar hyn o bryd, ond byddai'n gas gen i weld CWVYS yn diflannu: byddai hynny fel colli eich braich chwith."

"Mae CWVYS yn allweddol i'r gwasanaeth ieuencid gwirfoddol yng Nghymru. Gellir gwneud pethau yn well bob amser ond mae hynny'n gwestiwn gwahanol."

"Mae CWVYS yn hynod o bwysig."

"Byddai reiat pe na bai CWVYS yn bodoli."

"Byddai diwedd CWVYS yn drychineb."

Fe wnaeth dau o'r cyfweleion gyfeirio'n benodol at ddiwedd strwythurau cynrychiadol yn Lloegr megis NCVYS (Cyngor Cenedlaethol y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol) ac roeddent yn credu fod hynny wedi bod yn gamgymeriad mawr.

Mae'n bwysig nodi yn y lle cyntaf fod barn gref ymhlith cyfweleion (nid Aelodau CWVYS yn unig) fod CWVYS yn **unigryw ac yn arbenigwr** o ran ei wybodaeth a'i safle fel corff cynrychiadol y sector gwaith ieuencid gwirfoddol yng Nghymru. Holodd y Gwerthuswr y cyfweleion a oeddent yn aelodau o gyrff ymbarél eraill, ac os felly, sut oedd y sefydliadau hynny yn wahanol i CWVYS. Roedd nifer o Aelodau CWVYS hefyd yn aelodau o CGGC neu eu Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol a dywedodd y rhain fod y sefydliadau hynny yn fwy cyffredinol eu natur, heb ffocws penodol ar waith ieuencid. Dywedodd y cyfweleion o CGGC ei bod yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar CWVYS am wybodaeth am ddatblygiadau yn y maes gwaith ieuencid. Ystyrid fod gwahaniaeth amlwg hefyd yn achos sefydliadau oedd ag aelodau megis Plant yng Nghymru, Youth Cymru, Clybiau Bechgyn a Merched Cymru neu Urdd Gobaith Cymru.

Y farn gryfaf un oedd y **byddai'r sector gwaith ieuencid gwirfoddol yn colli ei lais Cenedlaethol pe**

na bai CWVYS yn bodoli. Fe wnaeth bron iawn pob Aelod o CWVYS a gyfwelwyd fynegi'r farn hon. Dywedodd un unigolyn "Ni allaf i feddwl am ffordd well o sicrhau llais cenedlaethol" a dywedodd un arall fod "Aelodau CWVYS yn dymuno cael perthynas â'r Canol a byddai'n anodd i hynny ddigwydd heb CWVYS." Dywedodd un y byddai diflaniad CWVYS yn "arwain at erydu'r Trydydd Sector." Dywedodd un arall: "Rwy'n dymuno i CWVYS ganolbwyntio ar bethau na all unrhyw sefydliad arall eu gwneud: ei rôl gynrychiadol a chyfleoedd ar gyfer rhwydweithio lleol a chenedlaethol."

Yr oedd oddeutu hanner yr Aelodau a gyfwelwyd hefyd yn credu **na fyddai sefydliadau llai yn cael gwrandawriad**. Mae hyn yn dangos faint o hyder sydd ganddynt ar hyn o bryd fod CWVYS yn ystyried safbwyntiau sefydliadau bychan wrth ddatblygu llais cyfunol.

Roedd oddeutu chwarter yr Aelodau a gyfwelwyd yn credu y **byddai Llywodraeth Cymru yn gweld colli'r llais cyfunol a ddarperir gan CWVYS** pe na bai CWVYS yn bodoli, o gofio y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori â nifer o sefydliadau unigol a chyfuno'r adborth hwnnw ei hun. Dywedodd un ohonynt: "Byddai'r Llywodraeth yn canfod yn fuan iawn fod rhaid iddi hi chwilio am ddull arall o gasglu safbwyntiau'r sector gwirfoddol pe na bai CWVYS yn cael ei ariannu'n briodol, a dywedodd arall "mae'n debyg na fyddai hi [Llywodraeth Cymru] yn gweld colli CWVYS nes byddai angen cynnal ymchwil; yna byddai'n gweld y golled."

Credai oddeutu dwy ran o dair o'r Aelodau a gyfwelwyd y byddai eu sefydliad yn **cael ei ynysu**. Roedd hyn yn bryder penodol ymhlith sefydliadau llai. Ni fyddent yn gallu bod mor ymwybodol o bolisïau a strategaethau newydd neu chyfleoedd newydd am arian; byddai cyfleoedd i rannu arferion da yn lleihau trwy gollir cylchlythrau, e-byst, cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd rhwydweithio; ni fyddent yn gallu ffonio neb i ofyn am gyngor; roedd sefydliadau oedd wedi datblygu o un ardal Awdurdod Lleol i weithio ar draws ardaloedd sawl Awdurdod Lleol yn credu fod CWVYS wedi bod yn allweddol o ran helpu i nodi'r cyfleoedd hyn; fe wnaeth dau (nifer rhyfeddol o fychan) grybwyll colli'r cyfleoedd hyfforddiant rhad ac am ddim a ddarperir trwy'r bartneriaeth â Dysgu Oedolion Cymru. Dywedodd un: "Byddai'n lladd dyheadau oherwydd ni fydddech chi'n gwybod beth allech chi wneud; byddech chi wedi'ch ynysu."

Yr oedd hanner yr Aelodau a gyfwelwyd yn credu hefyd y byddai diwedd CWVYS yn cyfleu neges negyddol ynghylch **gwerth y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol o safbwynt Llywodraeth Cymru**:

"Mae codi cwestiynau ynghylch y cyllid yn dweud cyfrolau am agwedd Llywodraeth Cymru ac nid yw'n gwerthfawrogi'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol."

"Mae'n ymwneud â gwerthfawrogi cyfraniad y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol i bobl ifanc a chymunedau."

"Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad am y gwerth sydd gan y Trydydd Sector yn ei thyb hi, ar draws pob sefydliad ac mewn sectorau gwahanol."

"Mae angen i Lywodraeth Cymru weld mwy o werth yn y sector. Mae'n teimlo fel blwch ticio. Dylent fod yn ein holi ni i weld sut allwn ni sicrhau'r hyn maent yn dymuno'i gyflawni."

"Naill ai dywedwch na wnewch chi ei ariannu neu ariannwch y sefydliad yn briodol. A yw Llywodraeth Cymru yn dymuno i'r sector fod â llais eglur?"

"Os ydych chi'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth, dylech chi ei ariannu. Os ydych chi'n credu ei fod yn adnodd pwysig, rhowch arian iddo."

Credai pedwar o'r cyfweleion y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor i wella proffil y sector gwaith ieuencid gwirfoddol yng Nghymru.

Fe wnaeth saith o **gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol** a gyfwelwyd hefyd fynegi barn. Roeddent yn gefnogol o CWVYS:

“Dylai'r Grant barhau. Byddai'n drist gweld CWVYS yn diflannu.”

“Mae angen am sefydliad i lobïo ar ran y sector gwaith ieuencid gwirfoddol, hyd yn oed os yw'n cyfleu negeseuon i Lywodraeth Cymru nad yw honno'n dymuno eu clywed.”

“Ni allaf gynnig sylw ynghylch y Grant, ond mae lle i CWVYS. Nid ydynt yn gwneud gwaith gwael: yn affodus, nid oes gennym ni lawer o sefydliadau lleol y gallant gysylltu â hwy.”

Fodd bynnag, dywedodd dau nad oeddent yn credu y byddid yn gweld colli unrhyw beth yn lleol oherwydd presenoldeb isel canfyddedig CWVYS yn eu hardal. “Pe bawn i yn sefydliad gwaith ieuencid gwirfoddol lleol, ni fyddwn i'n dweud ei fod yn cynnig gwerth am arian. Mae'n anodd i un sefydliad gynrychioli cymaint o wahanol ffasedau.”

Dywedodd y cynrychiolydd Awdurdod Lleol olaf ei fod yn gwerthfawrogi dull amsector o ddarparu gwasanaethau, ond holodd “A yw'n hanfodol mewn gwirionedd neu'n rhywbeth dymunol i'w gael?”

9.2 Crynodeb: Yr Effaith Pe Na Bai CWVYS yn Bodoli

Nid oes amheuaeth gan y Gwerthuswr hwn fod teimladau cryf wedi'u mynegi ynghylch y pethau y byddid yn gweld eu colli pe na bai CWVYS yn bodoli. Dywedodd cyfweleion (nid Aelodau o CWVYS yn unig) y byddai llais Cenedlaethol y sector yn cael ei gollu; credai sefydliadau llai na fyddent yn cael gwrandawriad; roedd pryder y byddai'n arwain at ynysu sefydliadau, yn sgil diffyg gwybodaeth ynghylch polisiau, strategaethau a chyfleoedd i gael arian, a llai o gyfleoedd i rwydweithio a rhannu arferion da. Ystyrid fod CWVYS yn unigryw o ran ei rôl oherwydd ei wybodaeth arbenigol a'i arbenigedd.

Felly caiff CWVYS ei werthfawrogi'n fawr. A yw hynny'n golygu y dylai Llywodraeth Cymru ei ariannu? Mae CWVYS wedi cychwyn ar broses o ganfod dulliau o fod yn gynaliadwy yn y dyfodol heb y grant, ond mynegwyd nifer o safbwyntiau cryf ynghylch y negeseuon y gallai Llywodraeth Cymru fod yn eu cyfleu i'r sector ynghylch ei barn am werth y sector. Mae'r Grant yn gyfystyr ag 84% o'r holl gyllid ar hyn o bryd, felly mae'n anodd gweld sut byddai CWVYS yn gallu llenwi'r bwloch hwnnw o ffynonellau eraill o fewn amser byr.

Nid yw cwmpas y Gwerthusiad hwn yn cynnwys gwneud argymhellion ynghylch pa un a ddylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu CWVYS, na faint ddylai'r arian fod. Dim ond Llywodraeth Cymru all ateb y cwestiynau hyn, wedi'i llywio gan y Gwerthusiad a gan gofio'r ystyriaethau economaidd ehangach ynghylch blaenoriaethau sy'n cystadlu. Bwriad y Gwerthusiad yw cynnig sylwadau ynghylch *effaith* y Grant. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch beth fyddid yn gweld ei gollu pe na bai CWVYS yn bodoli i geisio amlygu'r meysydd y credid yr oedd CWVYS yn sicrhau'r effaith fwyaf arnynt.

10 CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU A'R ARGYMHELLION

Mae'r pum Amcan ar gyfer Grant Llywodraeth Cymru, y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru a CWVYS, wedi cael eu defnyddio i werthuso effaith y Grant.

10.1 Amcan 1: Bod yn Gynrychiadol a Chynnal Perthnasoedd Effeithiol â Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith Ieuenctid Ledled Cymru.

Ar y cyfan, mae CWVYS wedi effeithio'n bositif ar yr amcan, er bod lle i wneud rhagor.

Dywedodd aelodau fod CWVYS yn gynrychiadol, o ran yr amrywiaeth o fathau o sefydliadau a gynrychiolir a'u maint, a'u gwasgariad daearyddol, a bod CWVYS wedi gwella yn yr ystyr hwn. Dengys ffigurau fod CWVYS wedi ehangu o 46 aelod yn 2009-10 i 97 yn 2016-2017. Fodd bynnag, roedd pedwar o blith yr wyth cyfwelai o Awdurdodau Lleol yn fwy amheus ynghylch y nifer o Aelodau sydd gan CWVYS yn eu hardal.

O safbwynt ei Aelodau, mae gan CWVYS berthnasoedd effeithiol â hwy. Bydd aelodau yn dewis ehangder y berthynas sy'n ofynnol ganddynt.

Ym marn y Gwerthuswr, mae CWVYS yn ymddangos yn eithaf cynrychiadol, ond mae lle i:

- ddatblygu perthnasoedd agosach â rhwydweithiau lleol (megis Awdurdodau Lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol) i wella gwybodaeth darpar aelodau;
- rhannu setiau data ynghylch aelodau presennol a darpar aelodau â Llywodraeth Cymru, er mwyn datblygu dealltwriaeth a rennir;
- gwella adroddiadau ynghylch niferoedd yr Aelodau i Lywodraeth Cymru trwy eu segmentu yn well yn sefydliadau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol (fel y dengys Tabl 1 yn adran 4.1.4), gan alluogi Aelodau newydd ac Ymadawyr i gael eu holrhain.

10.2 Amcan 2: Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Gwaith Ieuenctid i ymgysylltu yn Fwy Strategol, a Chaniatáu Iddynt Gael Gwrandawriad i'w Llais mewn Penderfyniadau Ynghylch Polisi.

Rwy'n credu fod CWVYS yn cyflawni'r Amcan hwn i'w Aelodau.

- Mae'r Aelodau yn gwerthfawrogi'r llais Cenedlaethol cyfunol. Pe na bai CWVYS yn bodoli, dyna'r elfen fyddai Aelodau a sawl cyfwelai yn ei fethu fwyaf. Ystyrid fod gan CWVYS ffocws unigryw ac arbenigedd unigryw ynghylch gwaith ieuenctid.
- Mae aelodau yn credu fod y broses ymgynghori a ddefnyddir gan CWVYS yn caniatáu iddynt gyfrannu. Mae'n golygu mwy na chyfrannu at waith ymgynghori: mae'n ymwneud â hyder, undod a'r "diogelwch mewn niferoedd" a ddarperir gan y llais cyfunol.
- Cred sefydliadau llai na fyddent yn cael gwrandawriad o bosibl heb fod yn rhan o'r llais cyfunol. Yn ogystal â hynny, pe na bai CWVYS yn bodoli, byddent yn ofni cael eu hynysu: ni fyddent yn

ymwybodol o bolisiau a strategaethau newydd neu gyfleoedd i gael arian; byddai cyfleoedd i rannu arferion gorau yn cael eu lleihau yn sgil colli'r cylchlythyrau, e-byst, cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd rhwydweithio; ni fyddent yn gallu ffonio neb i gael cyngor a chymorth; credai sefydliadau oedd wedi datblygu o un ardal Awdurdod Lleol i weithio ar draws ardaloedd sawl Awdurdod Lleol fod CWVYS wedi gwneud cyfraniad allweddol at eu cynorthwyo i nodi'r cyfleoedd hyn.

- Efallai bydd sefydliadau unigol yn dal yn dymuno mynegi eu safbwyntiau eu hunain ble maent yn credu fod ganddynt arbenigedd penodol ond serch hynny yn dymuno i CWVYS ddarparu llais ar gyfer y Sector ynghyd â'u safbwyntiau eu hunain.
- Pan mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd ag ymgynghoriadau, mae'n ymddangos fod CWVYS wedi gwneud cyfraniad pwysig at gyfeirio ei Aelodau at y prosesau hyn i'w hannog i gyfranogi.
- Serch hynny, mae angen i CWVYS wella ei ddull o ddisgrifio'r prosesau a ddefnyddir ganddo i gyflawni'r llais cyfunol Cenedlaethol hwnnw.

10.3 Amcan 3:Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol sy'n Cynnig Darpariaeth Gwaith Ieuenctid i Gydweithio'n Fwy Effeithiol ag Awdurdodau Lleol.

Mae effaith CWVYS o ran cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid i gydweithio'n fwy effeithiol ag Awdurdodau Lleol yn anghyson.

Ceir rhywfaint o gysylltu/cydlynu ar y lefel cenedlaethol sydd ddim mor drylwyr ag y gallai fod (neu nid yw fel mae CWVYS yn dymuno iddo fod), ond efallai caiff hyn ei ddatrys gan fwrdd cenedlaethol newydd y gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae tystiolaeth fod CWVYS yn gwneud cyfraniad effeithiol fel brocer rhwng rhai Aelodau a rhai Awdurdodau Lleol, ond ar y cyfan, nid yw hyn yn gryf oherwydd: mae rhai Awdurdodau Lleol yn llai derbyngar; ceir materion systemig y mae rhai Awdurdodau Lleol eu hunain yn eu hwynebu sy'n ei gwneud hi'n anoddach iddynt ryngweithio; ac nid yw rhai Aelodau na llawer o Awdurdodau Lleol yn ystyried ei fod yn ofynnol i CWVYS gyfranogi yn hyn (e.e. ble mae cysylltiadau lleol rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol eisoes yn gryf.

Efallai fod lle i CWVYS ddatblygu perthnasoedd gwaith cryfach gyda chynrychiolwyr sectorau gwirfoddol lleol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn benodol). Gallai'r cysylltiad hwn â rhwydweithiau lleol gynorthwyo i wella'r dull o nodi darpar Aelodau newydd a chynorthwyo i gryfhau presenoldeb CWVYS mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol ble mae'n ymylol yn y meddylfryd presennol, ac ychwanegu at wybodaeth leol CWVYS hefyd. Nid fynegwyd hyn trwy gyfrwng y broses cyfweiliadau, felly ni ellir gwybod i ba raddau mae CWVYS wedi bod yn ceisio gwneud hyn yn barod. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol gallu cyfweild rhagor o gynrychiolwyr Cynghorau Gwirfoddol Sirol i gael amrywiaeth ehangach o safbwyntiau ynghylch hyn, ond mae'r cyfweiliadau a gynhaliwyd yn awgrymu y byddent yn croesawu hyn.

Hefyd, gallai'r Amcan fod yn well pe cai ei ailysgrifennu i symud oddi wrth "Awdurdodau Lleol" yn unig a chwmpasu mecanweithiau cydlynu lleol eraill yn enwedig Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu.

10.4 Amcan 4: Cynorthwyo Sefydliadau Gwirfoddol i Ddangos Effaith eu Hymryiadau Gwaith Ieuenctid

Mae CWVYS wedi hyrwyddo'r dull "cyfraniadau da yn arwain at ddeilliannau da" trwy ei Grŵp Datblygu'r Gweithlu a thrwy'r cyfleoedd mae'n eu darparu i rannu arferion da, yn enwedig o ran astudiaethau achos yng nghylchlythyrau CWVYS a thrwy gyfrwng ei gyfarfodydd rhwydweithio amrywiol.

Dylai CWVYS ddarparu adroddiad blynyddol ynghylch y nifer o unigolion o sefydliadau sy'n aelodau sydd wedi elwa o'r hyfforddiant am ddim a ddarperir trwy law Dysgu Oedolion Cymru. Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno gwybod rhagor am broffil unigolion sy'n elwa o hyfforddiant gan Dysgu Oedolion Cymru, yn y sectorau statudol a gwirfoddol.

Nid yw dangos dylanwad gwaith ieuenctid yn faes syml. Os caiff Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ei gadarnhau yn y dyfodol, efallai bydd posibilrwydd y gall CWVYS gynorthwyo i'w weithredu.

A yw CWVYS wedi cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol i ddangos dylanwad eu hymryiadau gwaith ieuenctid? Cyfyngir ar rôl CWVYS gan y ffaith fod gan lawer o sefydliadau dechnegau a dulliau a ffafirir ganddynt yn eu lle yn barod, neu gan y ffaith y cânt eu llywodraethu gan ofynion cyrff ariannu. Mae'n debyg fod rôl addysgol CWVYS yn canolbwyntio ar hyrwyddo astudiaethau achos a rhannu gwybodaeth ynghylch arferion da. Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried ynghyd â CWVYS a ddylai CWVYS:

- wneud gwaith mwy rhagweithiol o ran datblygu 'sylfaen gwybodaeth' o dechnegau a dulliau y gallai'r holl sector (ac nid Aelodau yn unig) eu defnyddio, ac yn wir, o fewn gwaith ieuenctid yn ei gyfanrwydd, neu a ddylai fod yn darparu dolenni cyswllt at sefydliadau eraill sydd yn gwneud hyn?
- bod â rôl a thargedau i hyrwyddo'r *Marc Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru?*

Yn ychwanegol, cafwyd sylwadau yn barod ynghylch cyfleoedd i CWVYS gryfhau ei gysylltiadau â Chynghorau Gwirfoddol Sirol ac mae rhannu arferion da yn faes arall ble gallai CWVYS a Chynghorau Gwirfoddol Sirol gydweithio.

10.5 Amcan 5: Ymchwilio ynghylch Dod yn Sefydliad Cynaliadwy a Datblygu yn Sefydliad o'r Fath

Mae'r Amcan hwn yn wahanol i Amcanion 1-4. Mae'r pedwar arall yn canolbwyntio ar y rôl a wneir gan CWVYS er budd y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yn ei gyfanrwydd, ac mae Amcan 5 yn ymwneud â'i gyllid. Pennwyd yr Amcan hwn am y tro cyntaf yn 2016-17, yn ddiweddarach na'r Amcanion eraill. Felly, ni ellir gwerthuso hwn i'r un graddau, oherwydd nid yw'n ymwneud â dylanwad CWVYS ar y sector yn ei gyfanrwydd.

Serch hynny, mae CWVYS wedi gwneud cynnydd o ran elfen "ymchwilio" yr Amcan hwn trwy Ddiwrnod i Ffwrdd i Ymddiriedolwyr a'r defnydd o ymgynghorwyr allanol ynghylch cynaliadwyedd, yn arwain at lunio Cynllun Gweithredu.

10.6 Crynodeb o Effaith Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer CWVYS

Nid yw'r Gwerthusiad hwn yn cwmpasu gwneud argymhellion ynghylch pa un ai a ddylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu CWVYS neu beidio, neu faint allai'r cyllid hwnnw fod. Dim ond Llywodraeth Cymru a all ateb y cwestiynau hyn, wedi'i llywio gan y Gwerthusiad a gan gofio'r ystyriaethau economaidd ehangach ynghylch blaenoriaethau sy'n cystadlu. Cwmpas y Gwerthusiad yw cynnig sylwadau ynghylch dylanwad y Grant.

Ym marn y Gwerthuswr hwn, mae'r Grant i CWVYS wedi arwain at ddylanwad cadarnhaol ar y cyfan. Yn sicr, amddiffynnid CWVYS yn gryf iawn gan ei Aelodau. Mae fy sylwadau yn ymwneud yn fwy â thryloywder, gwella gwybodaeth, a rhwystrau, yn hytrach na pherfformiad CWVYS ei hun.

Mae CWVYS wedi cael yr effaith gryfaf ar Amcan 2 (Llais Cenedlaethol). Fe wnaeth dau o gyfweleion o Awdurdodau Lleol holi i ba raddau yr oedd yn cynrychioli llais dilys y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol, a pha un ai a oedd wedi'i ddominyddu gan safbwyntiau'r sefydliadau Cenedlaethol mwy. Credai cyfweleion yn gryf fod gan CWVYS brosesau effeithiol yn eu lle i gasglu a chyfleu llais yr Aelodau, ac roedd sefydliadau yn gwerthfawrogi hyn yn benodol. Ym marn y Gwerthuswr hwn, mae'n ymddangos fod CWVYS yn cynrychioli llais dilys, ond mae angen iddo ddisgrifio ei brosesau ymgynghori yn well, yn cynnwys sut mae'n defnyddio'r wybodaeth hon.

Yr ail effaith gryfaf yw'r un ar Amcan 1 (bod yn gynrychiadol a pherthnasoedd effeithiol). Yn sicr, roedd aelodau yn credu fod hyn yn cael ei gyflawni. Cafwyd cwestiynau gan rai Awdurdodau Lleol ynghylch pa mor ddigonol yw presenoldeb CWVYS mewn rhai ardaloedd daearyddol: byddai gwybodaeth well yn cynorthwyo i ddangos tystiolaeth o hyn. Dylai CWVYS a Llywodraeth Cymru barhau i ddatblygu cronfa ddata a rennir a dealltwriaeth a rennir o ddarpar aelodau cymwys sy'n bodoli ledled y wlad, ac mae angen segmentu Aelodau a darpar aelodau yn well. Bydd hyn yn helpu i gadarnhau yn rheolaidd i ba raddau mae CWVYS wedi treiddio ledled y wlad. Mae'r Gwerthuswr yn ystyried fod lle i wella'r maes hwn ymhellach, ond nid yw'n broblem.

Mae'r effaith ar Amcan 3 (Awdurdodau Lleol) wedi bod yn anghyson ar y lefelau cenedlaethol a lleol. Mae gennyf i amheuon ynghylch y gallu i gyflawni'r Amcan hwn fel mae wedi'i eirio ar hyn o bryd. Pe cai'r Amcan ei ail-eirio i ganolbwyntio ar bartneriaethau a chysylltiadau â rhwydweithiau lleol, efallai gellid cynnwys rhagor o effaith.

Yn debyg, mae'r effaith ar Amcan 4 (dangos effaith) wedi bod yn anghyson hefyd. Mae llawer o'r sylw wedi'i roi i "gyfraniadau da yn sicrhau canlyniadau da" ac elwa o gyfleoedd i rannu a hyrwyddo arferion da. Er bod Aelodau yn gwerthfawrogi hyn, nid tasgau y gall CWVYS yn unig eu cyflawni yw'r rhain.

Pe bai Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol wedi bod yn ei le, efallai byddai CWVYS wedi canfod rôl o ran cynorthwyo i'w weithredu, trwy ryw ffordd neu'i gilydd. Efallai bydd lle i CWVYS wneud rhagor mewn perthynas â hyn yn y dyfodol, os caiff Fframwaith o'r fath ei gwblhau.

Yn olaf, fe wnaeth grant Llywodraeth Cymru i CWVYS ddarparu 84% o gyllid CWVYS yn 2015-16. Roedd oddeutu 12% o'i gyllid yn deillio o Grantiau eraill (sydd heb eu nodi yn yr Adroddiad Blynyddol), a chyfrannodd ffioedd aelodaeth oddeutu 4% yn unig. Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried a oes "buddion" mae Aelodau yn eu cael ar hyn o bryd (megis yr wybodaeth a rennir ynghylch polisïau, strategaeth a chyllid, neu gylchlythrau) a ddylai fod ar gael i'r Sector cyfan, pa un ai a ydynt yn Aelodau sydd wedi talu neu beidio.

ATODIAD 1: RHESTR O GYFWELEION

Staff CWVYS

Paul Glaze, Prif Weithredwr, CWVYS.

Catrin James, Urdd Gobaith Cymru – Cydlynnydd Rhanbarthol (CWVYS).

Pwyllgor Gwaith CWVYS (Ymddiriedolwyr)

Keith Towler, Cadeirydd CWVYS.

Rocio Cifuentes, Cyfarwyddwr y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig; Is-gadeirydd.

Marco Gil-Cervantes, Prif Weithredwr ProMo Cymru; Trysorydd CWVYS.

Joff Carroll OBE, Prif Weithredwr, Clybiau Bechgyn a Merched Cymru.

Helen Mary Jones, Prif Weithredwr Youth Cymru.

Sharon Lovell, Cyfarwyddwr, NYAS Cymru.

Stephanie Price, Cyfarwyddwr - Cymru, Gwobr Dug Caeredin.

Leigh Rowland, Rheolwr y Ganolfan, Canolfan Cwmbrân ar gyfer Pobl Ifanc.

Is-lywyddion

Alan Higgins OBE.

Rob Norris.

Howard Williamson.

Aelodau Anweithredol CWVYS

Pam Boyd, Cast Cymru (Aelod, Powys).

Victoria Branciamore, Rheolwr Partneriaeth y Sector Cyhoeddus, Prince's Trust Cymru.

David Brunton, SYDIC.

Dai Bryer, Urdd Gobaith Cymru.

Claire Cunliffe, Gwirfoddolwyr Ifanc yr Heddlu, Heddlu De Cymru (hefyd ar y rhestr o Is-lywyddion ond cyfwelwyd fel Aelod newydd o CWVYS).

Gayle Harris, Dr Mz.

Helen Robins-Talbot, Talking Hands.

Sian Tomos, Prif Weithredwr, GISDA.

Vicky Williams, Her Cymru.

Erail

Steve Davis, Rheolwr y Gwasanaeth, Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro.

Jason Haeney, Prif Swyddog Ieuenctid a Chymuned, Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot.

Elen James, Pennaeth Ymgysylltu Ieuenctid ac Addysg Barhaus, Cyngor Sir Ceredigion.

Paul O'Neill, Uwch Reolwr, Gwasanaeth Ieuenctid CBS Caerffili.

Tim Opie, Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes (Ieuenctid), WLGA.

Ann Roberts, Rheolwr Darpariaeth Ieuenctid Integredig, Sir y Fflint.

Joanne Sims, Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid, Blaenau Gwent; Cadeirydd Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid.

Jan Smith, Uwch Swyddog Datblygu, Cyngor Gwirfoddol Sirol Conwy.

Judith Stone, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Polisi, Partneriaethau ac Ymgysylltu CGGC

Jane Williams, Pennaeth yr Adain, Gwasanaeth Ieuenctid Conwy.